# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach yn Siambr y Cyngor - Penmorfa, Dydd Llun, 31 Ionawr 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Newidiadau i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion (Tudalennau 3 - 82)**

**4. Cofnodion cyfarfod 16 Rhagfyr 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt (Tudalennau 83 - 88)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

LEdwards

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **31 Ionawr 2022** |
| **Lleoliad:** | |
| **Teitl:** | **Newidiadau i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Er mwyn codi ymwybyddiaeth a chael sylwadau'r Aelodau Etholedig am y newidiadau i'r ddogfen bolisi mewn perthynas â rhoi grantiau a benthyciadau i wella tai yn y sector preifat** |
| **Rheswm pam fod y Pwyllgor Craffu wedi gofyn am yr wybodaeth:** | **Er penderfyniad** |
| **Portffolio Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Edwards** |

**Cefndir:** Cafodd Polisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai'r Sector Preifat 2014 (y Polisi):
- ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2014, a daeth yn weithredol ar 1 Ionawr 2015;
- ei ystyried ymhellach gan y Panel Grantiau ar 3 Mawrth 2015 gydag argymhelliad y dylid cyflwyno'r Polisi diwygiedig i'r Cabinet gyda manylion am y newidiadau;
- ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ar 11 Mehefin 2015.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai addasiadau bach a chanolig ar gyfer pobl anabl ar gael i bawb, hynny yw, argymhellwyd y dylid dileu'r Prawf Adnoddau Ariannol. Felly, gwnaed newidiadau i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai'r Sector Preifat er mwyn adlewyrchu argymhelliad Llywodraeth Cymru.
Yn sgil y cynnydd mewn costau deunyddiau a llafur, cynyddwyd uchafswm y cymorth sydd ar gael ar gyfer yr addasiadau bach (a elwid gynt yn Grant Diogel, Cynnes a Saff) a'r Cymorth Atgyweirio Brys.
Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r uchafsymiau ar gyfer y benthyciadau di-log a roddir gan yr Awdurdod Lleol ac mae gwybodaeth fanylach am y benthyciadau di-log wedi'i chynnwys.

Yn y gorffennol roedd y Panel Grantiau yn trafod unrhyw achosion lle'r oedd y taliadau atodol ar gyfer y Grantiau Dewisol i'r Anabl yn fwy na £15k, ynghyd ag unrhyw amgylchiadau arbennig neu unigryw. Addaswyd hyn fel bod y penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r pwerau dirprwyedig a roddwyd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol (a nodir yn y Cyfansoddiad) gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet perthnasol (tudalennau 11, 16, 22 a 23).

| |
|---|
| Mae'r newidiadau hyn wedi'u cynnwys yn y polisi a dyma grynodeb ohonynt:<br><br>**1. Newidiadau**<br>• Tudalen 9 – gwahanu grantiau gorfodol mawr a grantiau dewisol bach a chanolig y Grant Cyfleusterau i'r Anabl.<br>• Tudalen 10 ac 11 – gwahanu grantiau gorfodol mawr a grantiau dewisol bach a chanolig y Grant Cyfleusterau i'r Anabl gydag uchafsymiau ar gyfer y grantiau.<br>• Tudalen 12 – cynyddir yr uchafswm o Gymorth Atgyweirio Brys y gellir ei roi o £3,000 i £5,000 ynghyd â TAW a ffioedd.<br>• Tudalen 13 a 14 – cynyddu uchafswm gwerth y Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi a'r Benthyciadau Gwella Cartrefi o £25,000 i £35,000 fesul uned, gydag amodau.<br>• Tudalen 17 – gan fydd yr addasiadau bach a chanolig yn gyllid dewisol, bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n agos a bydd Therapydd Galwedigaethol neu Gynorthwyydd y Therapydd Galwedigaethol yn defnyddio system blaenoriaethu.<br>• Tudalen 20 – ar y dudalen hon ceir manylion ynghylch yr hyn a ystyrir yn waith mawr.<br>• Tudalen 23 a 24 – ar y tudalennau hyn cyflwynir gwaith canolig y Grant Cyfleusterau i'r Anabl, gan nodi'r math o waith, cymhwysedd a'r amodau sy'n berthnasol.<br>• Tudalen 24 a 25 – ar y tudalennau hyn cyflwynir gwaith bach y Grant Cyfleusterau i'r Anabl (a elwid gynt yn Ddiogel, Cynnes a Saff), gan nodi'r math o waith, cymhwysedd a'r amodau sy'n berthnasol.<br>• Tudalen 28 a 29 – cynyddu'r uchafswm o gymorth sydd ar gael ar gyfer Cymorth Atgyweirio Brys.<br>• Tudalen 31 a 32 – Benthyciad Gwella Cartrefi – cynyddu'r uchafswm sydd ar gael gydag amodau ynghylch rhent ar gyfer landlordiaid.<br>• Tudalen 36 – Benthyciad Troi Tai'n Gartrefi – cynyddu'r uchafswm sydd ar gael gydag amodau.<br>• Tudalen 38 ac ymlaen – atodir Gweithdrefn Benthyciadau'r Awdurdod Lleol.<br><br>Noder: Nid oes amodau ar gyfer ad-dalu'r grantiau ar gyfer addasiadau bach a chanolig. Nid ydy'r addasiadau sydd ynghlwm wrth y grantiau hyn, e.e. lifft risiau, mynediad lefel at y gawod, canllawiau cydio, rampiau ac ati, yn dueddol o gynyddu gwerth yr eiddo. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad / Argymhellion:** | **Gofynnir i'r Aelodau ystyried a chytuno ar y newidiadau arfaethedig i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion. (Atodiad 2).** |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | **Er mwyn sicrhau bod Polisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion yn cael ei weithredu'n effeithiol.** |

| | |
|---|---|
| **Trosolwg a Chraffu:** | **Cyfarfod y Grŵp Arweiniol** |
| **Fframwaith Polisi:** | **Mae adroddiad y Polisi hwn yn gydnaws â'r blaenoriaethau sydd yn y canlynol:<br>Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023;<br>Strategaeth Gorfforaethol 2018-2022;** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Tai i Bawb: Strategaeth Tai Lleol i Geredigion** | |
| **Amcanion Strategol:** | **Mae'n cyfrannu at Amcanion Strategol y Cyngor:**<br>• **Bydd Ceredigion yn darparu gwasanaethau a fydd yn cyfrannu at amgylchedd iach a bywydau iachach ac yn diogelu'r rhai hynny sy'n agored i niwed yn y sir**<br>• **Mae amodau a chyfleoedd yng Ngheredigion i alluogi'r economi a'r busnesau lleol ddatblygu a ffynnu.** | |
| **Goblygiadau Ariannol:** | **Grant Cyfalaf Penodol** | |
| **Casgliadau'r Asesiad Effaith Integredig:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?**<br>**Do** | |
| | **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:** | Mae grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gael yn amodol ar asesiad cymhwysedd o ran angen. Mae rhai grantiau ar gael i breswylwyr dros oedran tynnu pensiwn sydd â chynilion cyfyng (llai na £15,000) tra bo'n rhaid i'r sawl o dan 65 oed gael prawf modd gyda chyfraniad o lai na £1,000 er mwyn bod yn gymwys. |
| | **Y Gymraeg:** | Mae'r gwasanaethau a'r llenyddiaeth ar gael yn ddwyieithog. |
| | **Datblygu Cynaliadwy:** | Darperir arian i chwyddo/ychwanegu at brosiectau effeithlonrwydd ynni, a gostwng oerfel gormodol gan wella effeithiolrwydd thermol y tai. Drwy gyfrwng y polisi, daw gwelliannau drwy ddarparu grantiau/benthyciadau sy'n gwella ymddangosiad gweledol y tai sy'n cyfrannu at gymunedau bywiog cynaliadwy ynghyd â gwella iechyd a llesiant.<br>Gwneir y gwaith gan gontractwyr lleol yn amodol ar feini prawf caffael. |
| | **Ymgysylltu:** | Datblygwyd y polisi o ganlyniad i ofynion statudol a'r cwmpas ariannol. |
| **Pwerau Statudol:** | **Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (fel y mae'n berthnasol i Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), a'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 mewn perthynas â darparu cymorth ariannol i denantiaid a pherchnogion cartrefi yn y sector preifat.** | |
| **Papurau Cefndir:** | **Dim** | |
| **Atodiadau:** | **Atodiad 1 – Asesiad Effaith Integredig**<br>**Atodiad 2 – Fersiwn Arfaethedig Polisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion** | |

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | **Llyr Hughes** |
| **Swydd:** | **Rheolwr Corfforaethol Tai** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | |

## ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG – TAFLEN GRYNODEB

Mae'r canlyniadau isod yn dangos canlyniadau cytûn y **Newidiadau / Ychwanegiadau at Bolisi Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion** a brofwyd yn erbyn Offeryn Sgrinio Asesiad Effaith Integredig Cyngor Sir Ceredigion.

Isod, ceir trosolwg cywir o'r Asesiad:

| | Cyfraniad Cyffredinol | | Eglurhad |
|---|---|---|---|
| Cydraddoldeb ac amrywiaeth | **NE** | | Mae grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gael yn amodol ar asesiad cymhwysedd o ran angen. Mae rhai grantiau ar gael i breswylwyr dros oedran tynnu pensiwn sydd â chynilion cyfyng (llai na £15,000) tra bo'n rhaid i'r sawl o dan 65 oed gael prawf modd gyda chyfraniad o lai na £1,000 er mwyn bod yn gymwys. Ymlaciwyd y cymhwysedd ar gyfer y grantiau hyn o ganlyniad i weithredu'r Polisi. |
| | **RhN** | | |
| | **N** | **8** | |
| | **RhG** | **1** | |
| | **C** | **1** | |
| | **A** | | |
| | **Amh** | | |
| Y Gymraeg | **NE** | | Mae'r gwasanaethau a'r llenyddiaeth ar gael yn ddwyieithog. |
| | **RhN** | | |
| | **N** | | |
| | **RhG** | **2** | |
| | **C** | **2** | |
| | **A** | | |
| | **Amh** | **1** | |

| | Cyfraniad Cyffredinol | | Eglurhad |
|---|---|---|---|
| Datblygu cynaliadwy | NE | | Darperir arian i chwyddo/ychwanegu at brosiectau effeithlonrwydd ynni, a gostwng oerfel gormodol gan wella effeithiolrwydd thermol y tai. Drwy gyfrwng y polisi, daw gwelliannau drwy ddarparu grantiau/benthyciadau sy'n gwella ymddangosiad gweledol y tai sy'n cyfrannu at gymunedau bywiog cynaliadwy ynghyd â gwella iechyd a llesiant.<br><br>Gwneir y gwaith gan gontractwyr lleol yn amodol ar feini prawf caffael. |
| | RhN | | |
| | N | | |
| | RhG | 1 | |
| | C | 2 | |
| | A | | |
| | Amh | 4 | |
| Ymgysylltu | NE | | Datblygwyd y polisi o ganlyniad i ofynion statudol a'r cwmpas ariannol. Bu diwygiadau i'r meini prawf yn sgil ymgynghori ar ffurf craffu ac ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd. Mae'r rhanddeiliaid allweddol ar gyfer ymgynghori â hwy yn cynnwys grwpiau eraill yn y trydydd sector e.e. Gofal a Thrwsio, Age Concern |
| | RhN | | |
| | N | 1 | |
| | RhG | 2 | |
| | C | 1 | |
| | A | | |
| | Amh | | |
| A oes angen Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb? | Nac oes. | | |
| Sylwadau cryno | Gweler uchod. | | |
| Argymhellion | Dylid monitro'r polisi'n barhaus. | | |

**Allwedd:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **NE** | **Negyddol** | **C** | **Cadarnhaol** |
| **RhN** | **Rhannol Negyddol** | **A** | **Anhysbys** |
| **N** | **Niwtral** | **Amh** | **Amherthnasol** |
| **RhG** | **Rhannol Gadarnhaol** | | |

# Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol

Mae'r **Asesiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

| **1. MANYLION Y CYNNIG:** (Polisi / Newid amcan / Arbed arian) | |
|---|---|
| Teitl y cynnig | Polisi Cymorth Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Maes gwasanaeth | Tai | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Donna Pritchard | Cyfarwyddwr Strategol | James Starbuck |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI | Alwen Edwards | E-bost | Alwen.Edwards@ceredigion.gov.uk | Ffôn | 01545 572183 |

| Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig |
|---|
| Mae'r Polisi hwn yn cynnwys y manylion ar gyfer y Grantiau a'r Benthyciadau a ddarperir gan y Gwasanaeth Tai. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth grantiau a benthyciadau a ariennir yn allanol ac yn fewnol a'r amodau sy'n berthnasol i bob un. Rydym am ddiweddaru'r polisi i gynnwys manylion ychwanegol am y benthyciadau ac yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru i ddileu'r Prawf o Adnoddau Ariannol ar gyfer grantiau bach a chanolig. Gallai dileu'r Prawf o Adnoddau Ariannol gael effaith ar nifer y cleientiaid sy'n gymwys i gael y grant. |
| Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuenctid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw). |
| Bydd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar y cyhoedd sydd angen addasiadau i'r anabl er mwyn iddynt barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. |



**RHEOLI'R DDOGFEN:** Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydraddoldeb, lle bynnag y bo modd.

| Awdur | Cam yn y broses benderfynu | Rhif y fersiwn | Dyddiad trafod | Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod |
|---|---|---|---|---|
| Alwen Edwards | Trosolwg a Chraffu | 1 | 16/12/2021 | *Bydd hyn yn dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy ym mhob cam o'r broses o ddatblygu'r cynnig. Ydych chi wedi ystyried yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r nodau llesiant, a'u rhoi ar waith?* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

| **AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR**: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut? | |
|---|---|
| Hybu'r Economi | Bydd y Polisi yn cael effaith gadarnhaol ar y diwydiant adeiladu lleol gan ddarparu cyfleoedd gwaith oherwydd y cynnydd posibl yn nifer y preswylwyr sy'n gymwys i gael addasiadau tai. Ar hyn o bryd mae contractwyr ar y Fframwaith Mân Waith CSC yn darparu addasiadau tai, ac mae posibilrwydd y gallai addasiadau ychwanegol gael eu cymeradwyo a'u cwblhau. Yn ogystal, gyda chleientiaid oedrannus sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, bydd cynnydd yn y ddibyniaeth ar ofalwyr lleol yn galw sawl gwaith y dydd – cyflogaeth leol. |
| Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl | Bydd y Polisi yn rhoi cyfle i breswylwyr anabl ac oedrannus barhau i fyw yn eu cartrefi trwy addasiadau amserol gan eu galluogi i fyw yn eu cymunedau a chyda'u teuluoedd a gwella eu hiechyd a'u llesiant. |
| Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd | Trwy ddarparu addasiadau i'r anabl i gleientiaid oedrannus ac anabl, mae hyn yn galluogi cleientiaid i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau a chyda'u teuluoedd am gyfnod hwy. |
| Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol | Trwy ddarparu addasiadau i'r anabl i gleientiaid oedrannus ac anabl, mae hyn yn galluogi cleientiaid i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a pharhau i fod yn rhan o'u cymuned. Wrth adeiladu estyniadau ac ymgymryd ag addasiadau eraill yn y cartref, dilynir y Rheoliadau Adeiladu diweddaraf i sicrhau bod mesurau effeithlonrwydd ynni yn cael eu gosod yn yr adeiladau. Defnyddir contractwyr lleol ar Fframwaith Mân Waith CSC i gyflawni'r gwaith gan ddefnyddio Masnachwyr Adeiladu lleol sy'n lleihau costau teithio. |



**SYLWCH:** Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy'n darparu tystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e. dadansoddiad o gwynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*

- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol (gan gynnwys y ddogfen **A Yw Cymru'n Decach?)***
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

**2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY:** Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?

| Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|
| **Hirdymor**<br>Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol | Bydd y Polisi'n cael ei ddiwygio'n rheolaidd yn dibynnu ar newidiadau yn y gyfraith, cyfarwyddyd ac amgylchiadau lleol.<br><br>Bydd dileu'r Prawf o Adnoddau Ariannol ar gyfer grantiau bach a chanolig yn arwain at gynnydd yn y cleientiaid sy'n gymwys i gael addasiadau a bydd y cleientiaid hyn yn parhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, gan leihau'r angen iddynt symud i ysbytai/cartrefi gofal. Bydd hyn yn lleihau'r angen i ehangu capasiti'r ddau sefydliad. | Yn y 4 blynedd cyn-Covid (h.y. 2016-17 i 2019-20) ar gyfartaledd cwblhawyd 115 o addasiadau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn flynyddol. O'r rhain, ar gyfartaledd roedd 16 cleient bob blwyddyn yn ganlyniad i ryddhau claf o'r ysbyty.<br><br>Nid yw unrhyw ffigurau ar gael i ddangos nifer y cleientiaid nad oeddent yn gymwys oherwydd bod ganddynt gyfraniad uchel ar y Prawf o Adnoddau Ariannol. | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd mwy o eiddo yn cael eu haddasu a gall yr addasiadau hyn gael eu defnyddio gan aelodau eraill o'r teulu, neu eu gwerthu i berchnogion a allai fod angen yr addasiad. | Nid oes unrhyw ffigurau ar gyfer preswylwyr sy'n gwneud addasiadau heb gysylltu â'r ALI.<br><br>O'r 357 o Holiaduron Bodlonrwydd a gwblhawyd ac a ddychwelwyd (2016-17 i 2019-20), roedd 354 yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r addasiad.<br><br>Mae 17% o aelwydydd ar Gofrestr Tai Ceredigion wedi gofyn am eiddo wedi'i addasu, gan felly greu'r Gofrestr Tai Hygyrch | |
| **Cydweithio**<br>Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau | Mae'r ALI yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i fodloni'r gofynion i ddileu'r Prawf o Adnoddau Ariannol ar gyfer addasiadau bach a chanolig.<br><br>Datblygwyd y Polisi ar y cyd â'r partneriaid perthnasol, h.y. Therapyddion Galwedigaethol o'r Gwasanaeth Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd, Gwasanaeth Gofal a Thrwsio West Wales a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol. | Mae LIC wedi gofyn i bob awdurdod yng Nghymru wneud y diwygiad hwn.<br><br>Er mwyn cwblhau addasiadau i'r anabl yn effeithiol, mae Therapyddion Galwedigaethol sy'n gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno argymhellion i'r Adran ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth oedrannus/anabl yn y Sir. | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | - Yn flynyddol, derbynnir 178 o argymhellion ar gyfartaledd yn seiliedig ar y ffigurau ar gyfer y 4 blynedd cyn-Covid (h.y. 2016-17 i 2019-20)<br><br>Mae'r ALI yn gweithio ar y cyd ag Asiantaeth Gofal a Thrwsio West Wales i wneud addasiadau bach, ac maent yn gweithredu fel Asiantau ar gyfer nifer o gynlluniau sy'n gwneud addasiadau canolig.<br><br>Cynhelir cyfarfod cyswllt Therapyddion Galwedigaethol yn rheolaidd gyda'r partneriaid, darperir cofnodion ar gyfer y cyfarfodydd hyn.<br><br>Mae Sefydliadau Trydydd Sector, h.y. Age Concern, CAVO, y Groes Goch Brydeinig, yn hysbysu'r henoed/pobl anabl/pobl hyglwyf ynghylch argaeledd cymorth grant ar gyfer addasiadau yn y cartref ac yn gweithredu fel eiriolwr drostynt. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynnwys**<br>Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn | Ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid canlynol wrth ddatblygu'r Polisi.<br>Cyngor Sir Ceredigion -<br>i) Adran Addasiadau Tai<br>ii) Gwasanaeth Strategaeth Tai a Galluogi<br>iii) Gwasanaethau Cymdeithasol – Therapyddion Galwedigaethol;<br>Bwrdd Iechyd -<br>i) Therapyddion Galwedigaethol<br>Cymdeithas Tai Wales & West<br>i) Gofal a Thrwsio<br>ii) Tîm Tai<br>Cymdeithas Tai Barcud<br>Grŵp Partneriaeth Tai Strategol<br><br>Ceisiwyd barn y rhanddeiliaid yn gynnar yn y broses yn enwedig gan y bydd y newid yn effeithio ar bob Gwasanaeth, h.y. Therapyddion Galwedigaethol, Gofal a Thrwsio, Addasiadau Tai.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd cyswllt Therapyddion Galwedigaethol bob mis neu ddau gyda chynrychiolaeth gan Therapyddion Galwedigaethol Gwasanaethau Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol ysbytai, Gofal a Thrwsio, Barcud a Chymdeithasau Tai Wales & West. | Trafodwyd y Polisi a cheisiwyd barn trwy'r cyfarfodydd cyswllt Therapyddion Galwedigaethol. Gellir darparu cofnodion o'r cyfarfodydd hyn<br><br>Gellir darparu cofnodion o'r cyfarfodydd<br><br>Gellir darparu cofnodion o'r cyfarfodydd | Amh |
| **Atal** | Mae hwn yn ofyniad gan LIC i ddileu'r Prawf o Adnoddau Ariannol ar gyfer | Er na chofnodir nifer y rhai sy'n ymholi am grant ac sy'n aflwyddiannus gan | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu | grantiau addasu bach a chanolig.<br>Rhagwelir y bydd<br>i) cynnydd yn yr ymholiadau a dderbynnir gan Therapyddion Galwedigaethol Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>ii) cynnydd yn yr argymhellion sy'n dod drwodd i'r Adran Addasiadau Tai;<br>iii) nifer cynyddol o gynlluniau ar gyfer contractwyr ar y Fframwaith Mân Waith i'w cyflawni o fewn amserlen benodol<br>iv) cynnydd yn y gyllideb sy'n ofynnol i gyflawni'r cynlluniau.<br>v) Mae'r holl amserlenni uchod yn bwydo i mewn i'n Dangosyddion Perfformiad ar gyfer yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau'r addasiad Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl o amser y cyswllt cyntaf i gwblhau'r addasiad.<br><br>Bydd y Polisi Cymorth Ariannol yn mynd i'r afael â'r materion hyn trwy ystyried -<br>i) Gosod uchafswm terfyn ariannol ar gyfer grantiau bach;<br>ii) Gosod uchafswm terfyn ariannol ar gyfer grantiau canolig; | fod eu cyfraniad tuag at gost y cynllun yn fwy neu'n hafal i gost y gwaith, bydd y defnyddwyr gwasanaeth hyn yn gymwys i gael cymorth grant pan fydd y Prawf o Adnoddau Ariannol wedi'i ddileu ar gyfer grantiau bach a chanolig.<br>Nid yw'r rhai sy'n **credu y** bydd eu cyfraniad tuag at gost y gwaith yn rhy uchel yn cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer ymweliad gan Therapydd Galwedigaethol, felly pan fydd y prawf modd yn cael ei ddileu ar gyfer grantiau bach a chanolig bydd pob un yn gymwys.<br>Ni wyddys yr union gynnydd yn nifer yr ymholiadau a dderbynnir ar hyn o bryd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | iii) Cyflwyno system Rhestr Blaenoriaeth | | |
| **Integreiddio**<br>Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill | Bydd y Polisi hwn yn effeithio ar yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol – Therapyddion Galwedigaethol yn ogystal â'r Adran Addasiadau Tai. Mae'r ddwy adran yn cydweithio'n agos ac yn cynnal cyfarfodydd cyswllt Therapyddion Galwedigaethol bob mis neu ddau i roi sylw i achosion problemus, llwythi gwaith, sefyllfa ariannol y gyllideb grant, polisïau a gweithdrefnau. Rhannwyd y gofyniad fel y'i nodwyd gan LIC gyda'r rhanddeiliaid yn gynnar yn y broses<br><br>Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar<br>i) Yr economi – gwaith ychwanegol ar gyfer contractwyr lleol;<br>ii) Yr amgylchedd – bydd cadw defnyddwyr gwasanaeth yn eu cartrefi yn lleihau nifer y gwelyau y mae eu hangen mewn ysbytai/cartrefi gofal. Mae'r holl addasiadau ac adeiladau newydd yn unol â safonau Rheoli Adeiladu, mae hyn fel arfer yn cynnwys mesurau inswleiddio. | Mae'r newidiadau i'r polisi wedi'u datblygu gyda phartneriaid a byddwn yn parhau i fonitro darpariaeth y gwasanaeth trwy gyfarfodydd cyswllt Therapyddion Galwedigaethol. | Amh |

| **3. NODAU LLESIANT:** Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall. | | | |
|---|---|---|---|
| Nod llesiant | Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
| **3.1. Cymru lewyrchus**<br>Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig, creu cyfoeth, darparu swyddi | Mae'r Polisi'n cyfrannu'n gadarnhaol at Gymru lewyrchus trwy gyfleoedd ar gyfer caffael lleol, cynnwys y gymuned, swyddi a/neu brentisiaethau a mentrau gwyrdd.<br>Defnyddir Fframwaith Mân Waith CSC i gael hyd i gontractwyr a gyda nifer cynyddol o gynlluniau yn cael eu darparu bydd hyn yn cynyddu'r cyfle i grefftwyr lleol. | Gofyniad Fframwaith Mân Waith ar gyfer contractwyr lleol. | Amh |
| **3.2. Cymru gydnerth**<br>Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd) | Mae'r holl waith a wneir yn unol â'r gofynion a bennir gan Reoli Adeiladu, ac mae hyn yn cynnwys mesurau inswleiddio, yn arbennig ar gyfer adeiladau newydd.<br><br>Gall defnyddwyr gwasanaeth aros yn eu cartrefi ac yn eu cymunedau, gan gryfhau'r cymunedau.<br>Trwy sicrhau y gall defnyddwyr gwasanaeth barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi heb fod angen eu derbyn i ysbytai neu gartrefi gofal, bydd hyn yn lleihau faint o bwysau ychwanegol sydd ar y ddau gan gyfyngu ar nifer/maint cartrefi/ysbytai newydd y | Gofynion Rheoliadau Rheoli Adeiladu. | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mae angen eu hadeiladu i ddarparu ar eu cyfer. | | |
| **3.3. Cymru iachach**<br>Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd | Sicrheir llesiant corfforol a meddyliol mwyaf defnyddwyr gwasanaeth trwy ddarparu'r addasiad i'r rhai na fyddent wedi bod yn gymwys o'r blaen a sicrhau y gallant fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau yn agos at eu teuluoedd a'u ffrindiau.<br><br>Ynghyd â'r effaith ar y Gwasanaeth Addasiadau Tai, bydd gan adran Therapydd Galwedigaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaeth Gofal a Thrwsio West Wales lwyth gwaith cynyddol os yw mwy o drigolion y sir yn gymwys i gael cymorth grant ar gyfer addasiadau.<br><br>Bydd amgylchedd byw'r defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei wella a thrwy gadw ei annibyniaeth a pharhau i fyw yn ei gartref yn agos at ei deulu a'i ffrindiau bydd yn gwella ansawdd bywyd yr unigolyn. | O'r 357 o Holiaduron Bodlonrwydd a gwblhawyd ac a ddychwelwyd yn dilyn addasiad i'r anabl yn eu cartref, roedd 354 yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r addasiad. (ffigurau yn seiliedig ar 4 blynedd cyn-Covid h.y. 2016-17 i 2019-20). | Amh |
| **3.4. Cymru o gymunedau cydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | Bydd y Polisi yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaeth oherwydd byddant yn gallu parhau i fyw yn eu cymunedau yn lle cael eu derbyn i'r ysbyty/cartref gofal a byw yn agos at eu teuluoedd a'u ffrindiau o fewn diogelwch eu cartref eu hunain ar ôl i'r addasiad gael ei wneud. | Bydd galluogi pobl leol i barhau i fyw yn eu cymunedau yn cyfrannu at gynnal treftadaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg. | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol | Ceir effaith gadarnhaol o ran Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang trwy sicrhau bod preswylwyr yn parhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain heb yr angen i symud i gartref gofal neu gael eu derbyn i'r ysbyty gan leihau nifer y lleoedd sydd eu hangen yn y ddau.<br><br>Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Rheoliadau Adeiladu sy'n lleihau ôl troed carbon pobl. | Gofynion Rheoliadau Rheoli Adeiladu. | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau<br><br>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.<br><br>*Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.*<br><br>***Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd:***<br>[Comisiwn Cydraddoldeb – Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb]() | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.<br><br>Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchodedig. *Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchodedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw* | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?<br><br>Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio <u>data</u> nac yn <u>ymgysylltu</u> os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r blwch **cynnwys** yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol. | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?<br><br>Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r |

<table>
<tr><td colspan="4"></td><td>fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.</td><td></td><td>camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Oedran<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓)</td><td rowspan="7">Ar hyn o bryd mae plant o dan 18 oed yn gymwys i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl ac nid yw'n destun Prawf o Adnoddau Ariannol – felly dim newid.<br><br>Mae'r Prawf o Adnoddau Ariannol yn berthnasol i bob cleient 18 oed a hŷn. Os yw'r cleient ar fudd-dal prawf modd neu ar incwm isel byddent yn gymwys i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl gyda naill ai dim cyfraniad i'w dalu neu gyfraniad isel – felly dim newid.<br><br>Os yw'r cleient yn gweithio/os oes ganddo bensiwn neu gynilion sylweddol sy'n fwy na'r trothwyon incwm/cynilion fel y'u rhagnodir ar gyfer Grant Cyfleusterau i'r Anabl, gallai eu cyfraniad fod yn uchel. Gallai eu cyfraniad fod yn fwy na chost yr addasiad neu ni fyddent yn gallu ariannu'r cyfraniad ac ni fyddent yn</td><td rowspan="7">Disgwylir i boblogaeth Ceredigion heneiddio dros y blynyddoedd i ddod, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y bobl 65 oed a hŷn, ac yn fwy arbennig yn y grŵp oedran 85+. Wrth i ddisgwyliad oes gynyddu, mae'r galw am dai sy'n addas i anghenion yr henoed yn debygol o gynyddu ymhellach.</td><td rowspan="7">Amh</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Pobl 18-50</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Pobl hŷn 50+</td><td>Cadarnhaol</td><td>Negyddol</td><td>Dim/Fawr ddim</td></tr>
<tr><td>✓</td><td></td><td></td></tr>
</table>

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gallu derbyn yr addasiad – pe bai'r Prawf o Adnoddau Ariannol yn cael ei ddileu ar gyfer grantiau bach a chanolig byddai'r holl gleientiaid yn gymwys i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl bach a chanolig a derbyn yr addasiadau sy'n ofynnol yn eu cartref.<br><br>Byddai grant mwy yn parhau i fod yn ddarostyngedig i Brawf o Adnoddau Ariannol. | | |



| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anabledd**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓) | | | | Ar hyn o bryd bydd plant o dan 18 oed ac oedolion 18 oed a hŷn sydd ar fudd-dal prawf modd neu sydd ar incwm isel yn gymwys i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl.<br><br>Ar ôl dileu'r Prawf o Adnoddau Ariannol bydd pob cleient yn gymwys i gael Grant Cyfleusterau i'r Anabl bach a chanolig waeth beth fo'i incwm/pensiwn a chynilion. | Bydd yr holl breswylwyr yn gymwys bellach i gael addasiadau tai waeth beth fo'u hamgylchiadau ariannol.<br><br>Mae Cyfrifiad 2011 yn nodi bod gan 21% o'r boblogaeth broblem iechyd neu anabledd tymor hir sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. | Amh |
| Nam ar y clyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Nam corfforol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Nam ar y golwg | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Anabledd dysgu | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Salwch hirdymor | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ✓ | | | | | |
| Iechyd meddwl | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Arall | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trawsrywiol**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓) | | | | Nod y Polisi yw bod yn addas ar gyfer anghenion unigol, ni fydd unrhyw effaith wahaniaethol ar bobl drawsryweddol.<br><br>Nodir anghenion unigol trwy'r cais a'r argymhellion a dderbynnir gan Therapyddion Galwedigaethol, a rhoddir sylw i'r rhain yn unol â hynny. | Mae'n anodd pennu ffigurau ar gyfer ailbennu rhywedd gan fod y rhan fwyaf o bobl sy'n profi dysmorffia rhyw yn debygol o ddymuno bod yn anhysbys.<br><br>Mae adroddiad gan y Swyddfa Gartref yn awgrymu y dylai sefydliadau ystyried y gallai 1% o'u gweithwyr a'u defnyddwyr gwasanaeth brofi rhyw fath o amrywiant rhyw. | Bydd staff y Cyngor yn cael hyfforddiant ar Godau ac Ymarferion Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priodas neu bartneriaeth sifil**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓) | | | | Nod y Polisi bod yn addas ar gyfer anghenion unigol; ni fydd unrhyw effaith wahaniaethol yn seiliedig ar statws priodasol. | Yn ôl ffurflenni Cyfrifiad 2011, cyfran y bobl briod yw 42.8%, sydd bron pedwar pwynt canran yn is nag yn Lloegr. Cyfran y partneriaethau sifil o'r un rhyw yw 0.2% sy'n debyg i Loegr. | Bydd staff y Cyngor yn cael hyfforddiant ar Godau ac Ymarferion Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Priodas | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Partneriaeth sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| **Beichiogrwydd neu famolaeth**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓) | | | | Nod y Polisi bod yn addas ar gyfer anghenion unigol; ni fydd unrhyw effaith wahaniaethol yn seiliedig ar p'un a yw'r ymgeisydd yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth.<br>Ni fyddai'r newidiadau i'r gofyniad Prawf o Adnoddau Ariannol yn effeithio ar gleientiaid sy'n feichiog neu ar famolaeth sy'n gallu gwneud cais am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. | | Bydd staff y Cyngor yn cael hyfforddiant ar Godau ac Ymarferion Deddf Cydraddoldeb 2010. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Mamolaeth | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| **Hil**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? (Ticiwch ✓) | | | | Bydd arferion, credoau a thraddodiadau cymunedau amrywiol yn cael eu parchu.<br><br>Efallai y bydd angen gwasanaeth cyfieithu ar ddinasyddion sydd wedi mudo i'r ardal ac iaith arall yw eu prif iaith, ac os oes ganddynt sgiliau Cymraeg/Saesneg cyfyngedig neu ddim sgiliau iaith. | Mae ffurflenni'r Cyfrifiad yn nodi bod 2,196 o ddinasyddion Ceredigion wedi dweud bod eu prif iaith yn iaith heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg. Y grŵp mwyaf o siaradwyr prif iaith ar ôl Cymraeg a Saesneg oedd Pwyleg gyda 663 o unigolion. Mae Ceredigion hefyd yn cynnig cymorth ar gyfer Prosiect Ffoaduriaid Syria, lle gallai fod nifer o siaradwyr nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg neu Saesneg. | Efallai y bydd angen defnyddio gwasanaeth cyfieithu WITS ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n fudwyr ac sydd â sgiliau Cymraeg/Saesneg cyfyngedig neu ddim sgiliau Cymraeg/Saesneg o gwbl. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Grwpiau ethnig eraill | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ✓ | | | | | |

| Crefydd neu ddim cred<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓) | | | | Bydd arferion, credoau a thraddodiadau cymunedau amrywiol yn cael eu parchu. | Mae'r mwyafrif o boblogaeth Cymru yn disgrifio'u hunain yng Nghyfrifiad 2011 fel Cristnogion, h.y. 59%. Yng Nghymru, mae 31% yn dweud nad ydynt yn dilyn crefydd a gwrthododd 9% ateb. Mwslimiaid yw'r grŵp mwyaf nesaf yng Nghymru gyda 521 o aelodau yn cynrychioli 0.7% o'r boblogaeth, wedi'i ddilyn gan Fwdhyddion (0.5%). | Bydd staff y Cyngor yn cael hyfforddiant ar Godau ac Ymarferion Deddf Cydraddoldeb 2010. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cristnogion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Bwdhyddion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Hindŵiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Dyneiddwyr | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Iddewon | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Mwslimiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Sikhiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Pobl heb gred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eraill | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion a/neu fenywod? (Ticiwch ✓) | | | | Nod y Polisi yw bod yn addas ar gyfer anghenion unigol; ni fydd unrhyw effaith wahaniaethol yn seiliedig ar ryw'r ymgeisydd. | Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae cyfran y dynion a'r menywod yn weddol gyfartal yng Ngheredigion. | Amh |
| Dynion | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Menywod | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol**<br>Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓) | | | | Nod y Polisi bod yn addas ar gyfer anghenion unigol; ni fydd unrhyw effaith wahaniaethol yn seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol. | Nid yw'r Cyfrifiad yn casglu gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol. Ymatebodd bron i 170,000 o bobl i'r cwestiwn ar hunaniaeth rywiol yn Arolwg Integredig o Gartrefi y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2013. Yng Nghymru, roedd 93.5% yn heterorywiol, 1.4% yn hoyw, lesbiaid neu'n ddeurywiol, roedd 0.4% wedi nodi 'arall', 'ddim yn gwybod' neu wedi gwrthod ymateb. Ni roddodd 1.8% pellach unrhyw ymateb o gwbl. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn defnyddio'r amcangyfrif o 5-7% o'r boblogaeth sy'n | Amh |
| Pobl ddeurywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Dynion hoyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Menywod hoyw / lesbiaid | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |
| Pobl heterorywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | | |
| | ✓ | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | lesbiaid, hoyw neu ddeurywiol ac mae'r ffigurau hyn hefyd yn cael eu derbyn gan Stonewall (mae Stonewall yn elusen hawliau pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a trawsrywiol (LGBT) yn y Deyrnas Unedig). | |

**Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.**

**3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?**

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn:
● dileu neu leihau anfantais ● diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol ● annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran

Bydd y Polisi yn helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer yr holl breswylwyr er mwyn cael addasiad i'w galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain.

**3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?**

Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos:
● y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol ● y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol
● bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny

Mae'r Polisi yn helpu i ddileu gwahaniaethu trwy fod yn hygyrch i bob grŵp a thrwy wneud addasiadau rhesymol pryd bynnag y bo angen.

**3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?**

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn :
● Mynd i'r afael â rhagfarn ● Hybu dealltwriaeth

Ni ffefrir unrhyw grŵp ac mae'r polisi'n annog cynhwysiant. Ein nod yw darparu addasiadau i bawb sydd mewn angen gan ystyried eu hanghenion iaith, oedran, anabledd, rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu ddim cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ac annog a chefnogi cydlyniant cymunedol o fewn cymunedau amrywiol.

**Rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.**

| |
|---|
| **Mae Anfantais Economaidd-Gymdeithasol yn golygu byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas.**<br>*Fel corff cyhoeddus rhestredig, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion roi sylw dyledus i Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu cwblhau asesiad effaith tlodi. Mae'r ddyletswydd yn cynnwys pawb sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig.* |
| **3.6.5 Pa dystiolaeth sydd gennych chi am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniad mewn perthynas â'r cynnig?**<br>Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu ddibwys. |
| Bydd canlyniad y Polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb ei fod yn gynhwysol. |
| Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon? |
| Mae'r Polisi yn gwella iechyd a llesiant preswylwyr trwy ddarparu addasiadau a gwella eu hamodau byw. |
| Pa gam(gamau) y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol? |
| Amh |

| **3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod.<br>*Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.* | | | | Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl. | Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon? | Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Bydd y Polisi ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | Bydd copïau dwyieithog o'r Polisi terfynol ar gael ar y wefan gorfforaethol ac yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg y Cyngor. | Amh |
| A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Mae'r Polisi yn cael effaith gadarnhaol.<br><br>Mae cymunedau'n newid yng Ngheredigion ac mae hyn yn cael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg. Bydd y Polisi yn galluogi trigolion lleol i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain ac yn eu cymunedau am gyfnod hwy trwy osod addasiadau. | Yn ôl Proffil Iaith Gymraeg Ceredigion mae 47% (tua 35,000) o'r boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg yn ôl ffurflenni Cyfrifiad 2011.<br><br>Rydym yn cofnodi iaith o ddewis ymgeiswyr ar geisiadau. | Amh |
| A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | | Gall ymgeiswyr wneud cais yn Gymraeg neu yn | Amh |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg? | ✓ | | | Mae'r Polisi yn cael effaith gadarnhaol.<br>Gall defnyddwyr gwasanaeth ddefnyddio'r gwasanaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â pholisi iaith y Cyngor. | Saesneg ac yn cael gwasanaeth llawn yn yr iaith o'u dewis. | |
| Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg? | Cadarnhaol<br>✓ | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Bydd y Polisi a dogfennau perthnasol ar gael yn y ddwy iaith.<br>Rydym bob amser yn ymwybodol o iaith a diwylliant ac yn ceisio darparu addasiadau i gartrefi er mwyn i bobl leol gael y cyfle i barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ac o fewn eu cymunedau er mwyn i'r iaith ffynnu. | Mae'r Polisi a'r ddogfennaeth berthnasol ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. | Amh |
| A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi diwylliant a threftadaeth leol? | Cadarnhaol | Negyddol | Dim/Fawr ddim | Bydd y Polisi yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant a threftadaeth leol gan ei fod yn ceisio galluogi preswylwyr oedrannus ac anabl i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau. | Bydd camau gweithredu yn mynd i'r afael ag anghenion trigolion lleol sy'n cynnwys anghenion iaith a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol y sir. | Amh |

**4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG:** Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

**4.1 Camau**

| Beth fyddwch chi'n ei wneud? | Pryd fyddwch chi'n ei wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r Ddeddf Cydraddoldeb a Mesur yr Iaith ac wedi'u hyfforddi'n ddigonol. | Parhaus | Uwch Swyddog Addasiadau Tai ac Effeithlonrwydd Ynni | |
| Efallai y bydd angen defnyddio gwasanaeth cyfieithu WITS ar gyfer defnyddwyr sy'n ymfudwyr ac sydd â sgiliau Cymraeg/Saesneg cyfyngedig neu ddim sgiliau Cymraeg/Saesneg. | Parhaus | Uwch Swyddog Addasiadau Tai ac Effeithlonrwydd Ynni | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhowch gyfiawnhad.**
*(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)*

Gweler uchod

**4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu**
*Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?*

Bydd effaith ac effeithiolrwydd gweithredu'r Polisi yn cael ei fonitro trwy gyfarfodydd tîm rheolaidd, cyfarfodydd cyswllt Therapyddion Galwedigaethol a chyfarfodydd Cyllid.

**5. RISG:** Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?

| Meini prawf asesu effaith | 1 – Isel iawn | 2 – Isel | 3 – Canolig | 4 – Uchel | 5 – Uchel iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Meini prawf asesu tebygolrwydd | 1 – Annhebygol o ddigwydd | 2 – Llai tebygol o ddigwydd | 3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd | 4 – Mwy tebygol o ddigwydd | 5 – Tebygol o ddigwydd |

| Disgrifiad o'r risg | Effaith (difrifoldeb) | Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni) | Sgôr risg |
|---|---|---|---|
| Cynnydd yn nifer yr ymholiadau a'r addasiadau | 3 Canolig | 3 Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd | 3 x 3 = 9 |
| Cyllideb annigonol ar gyfer cyflwyno'r holl addasiadau | 3 Canolig | 4 Mwy tebygol o ddigwydd | 3 x 4 = 12 |

| Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall? |
|---|
| Gall y polisi hwn gael effaith bosibl ar y gwasanaeth therapi galwedigaethol yn y Cyngor ac mewn ysbytai. |

| **6. CYMERADWYO** | | | |
|---|---|---|---|
| Swydd | Enw | Llofnod | Dyddiad |
| Rheolwr y Gwasanaeth | Llyr Hughes | | 6/1/2022 |
| Pennaeth y Gwasanaeth | Donna Pritchard | | 7/1/2022 |
| Y Cyfarwyddwr Strategol | Sian Howys | | 7/1/2022 |
| Deiliad y Portffolio | Dafydd Edwards | | 7/1/2022 |

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



# Polisi Cymorth Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai

Rhagfyr 2021









## Cynnwys

1. CYFLWYNIAD .... 3
2. DIBEN Y POLISI .... 5
3. AMCANION Y POLISI .... 6
4. MATERION ALLWEDDOL .... 7
5. Y CYMORTH ARIANNOL SYDD AR GAEL A'R AMODAU SYDD YNGHLWM .... 8
6. ASIANTAETHAU GWELLA CARTREFI .... 15
7. GRANTIAU/BENTHYCIADAU A YSTYRIR MEWN AMGYLCHIADAU ARBENNIG .... 16
8. GWAITH SY'N GYMWYS AR GYFER GRANT/BENTHYCIAD YNG NGHEREDIGION .... 16
9. CYLLID .... 17
10. FFIOEDD A THALIADAU .... 17
11. CWYNION .... 19
12. TREFNIADAU PONTIO A'R POLISI BLAENOROL .... 19
13. DATBLYGU'R POLISI YMHELLACH .... 19
ATODIAD A – HWYLUSO – CYMORTH I FYW'N ANNIBYNNOL .... 21
ATODIAD B – GRANTIAU A BENTHYCIADAU YN ÔL DISGRESIWN AR GYFER CYMORTH GYDA CHYNNAL A CHADW AC ATGYWEIRIO .... 28
ATODIAD C – GWEITHDREFN BENTHYCIADAU AWDURDOD LLEOL .... 39
PWERAU I DDYFARNU BENTHYCIADAU .... 39
YR AWDURDOD YMDDYGIAD ARIANNOL (FCA) .... 39
SAFONAU GWEINYDDU MORGEISI .... 40
CYMORTH GWLADWRIAETHOL .... 41
CYNHYRCHION BENTHYCIAD PRESENNOL .... 42
CAMAU YN Y BROSES .... 43
CAMAU ASESU ARIANNOL .... 44

## 1. CYFLWYNIAD

Ym mis Gorffennaf 2002 gwnaeth y Llywodraeth newidiadau pwysig i ddeddfwriaeth grantiau tai, gan gyflwyno Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002. Mae'r gorchymyn hwn yn caniatáu i awdurdodau lleol lunio eu polisïau cymorth ariannol hyblyg eu hunain i dargedu eu cyllid er mwyn rhoi sylw i anghenion penodol am fenthyciadau a blaenoriaethau strategol.

Erbyn hyn, y Grant Cyfleusterau i'r Anabl yw'r unig grant cenedlaethol mandadol, ac mae pob math arall o gymorth yn cael ei gynnig yn ôl disgresiwn y Cyngor.

Yn sgil cyflwyno'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio, cyn y gall Awdurdod Lleol ddarparu unrhyw gymorth o dan y gorchymyn, rhaid ei fod wedi mabwysiadu polisi ar gyfer rhoi cymorth, a rhaid ei fod wedi dweud wrth y cyhoedd am y polisi hwnnw[1]. Hefyd, rhaid iddo sicrhau bod copi llawn o'r polisi ar gael ar bob adeg resymol, a'i fod ar gael trwy'r post am dâl rhesymol. Yna rhaid darparu unrhyw gymorth yn unol â'r polisi hwnnw. O ganlyniad, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod eu polisi cymorth ariannol yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu telerau'r cynllun hwn ac unrhyw gymorth arall y maent yn ei gynnig.

Mae'r dibenion posibl ar gyfer darparu'r cymorth wedi eu hamlinellu yn Erthygl 3 yn y gorchymyn. Mae hynny at y diben o wella amodau byw yn eu hardal, a gall Awdurdodau ddarparu cymorth uniongyrchol neu anuniongyrchol at y diben o alluogi rhywun i:

- gael llety preswyl (waeth a yw yn yr ardal neu'r tu allan i'r ardal) – dim ond lle mae'r Awdurdod wedi caffael neu yn cynnig caffael (yn orfodol neu fel arall) y llety y mae'n byw ynddo, neu yn fodlon y byddai caffael llety arall i fyw ynddo yn darparu budd tebyg i'r budd a gawsai'r person hwnnw o wneud gwaith ar ei lety presennol;
- mabwysiadu neu wella llety preswyl (boed hynny trwy addasu, trawsnewid neu helaethu);
- atgyweirio llety preswyl;
- dymchwel adeiladau sy'n cynnwys llety preswyl;
- lle mae adeiladau sy'n cynnwys llety preswyl wedi cael eu dymchwel, i godi adeiladau sy'n cynnwys llety preswyl yn eu lle.

Diffinnir 'llety preswyl' yn Rhan 2 y Gorchymyn fel adeilad neu ran o adeilad, carafán, cwch neu strwythur tebyg y mae rhywun yn byw ynddo neu sydd ar gael at ddibenion preswyl.

Mae'r Gorchymyn yn datgan ymhellach[2] y gellir darparu'r 'cymorth' ar unrhyw ffurf, a gall fod yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau, gan gynnwys amodau ynghylch ad-dalu'r

---

[1] Erthygl 4 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002
[2] Erthygl 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002

cymorth neu ei werth (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), neu gyfrannu at y gwaith a gwblhawyd gyda chymorth.

Yn sgil cyflwyno **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,** mae mwy o ffocws ar yr awdurdod lleol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei breswylwyr. Trwy alluogi i dai gael eu darparu a'u gwella, mae'r awdurdod lleol yn cyfrannu at nifer o'r saith nod llesiant, gan gynnwys Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru o gymunedau cydlynus.

Deddfwriaeth allweddol newydd sy'n effeithio ar y rheiny y mae arnynt angen cymorth yw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Egwyddorion sylfaenol y Ddeddf yw:

**Llais a rheolaeth** – rhoi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddynt er mwyn cyrraedd y canlyniadau sy'n eu helpu i gael llesiant.

**Atal ac ymyrryd yn gynnar** – cynyddu gwasanaethau ataliol o fewn cymunedau er mwyn lleihau uwchgyfeirio i fod yn angen critigol.

**Llesiant** – cefnogi pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth

**Cyd-gynhyrchu** – annog unigolion i chwarae mwy o ran wrth ddylunio a darparu gwasanaethau.

Yn ychwanegol at hyn, creodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 bŵer disgresiwn y cyfeirir ato fel 'y pŵer llesiant' sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i wneud popeth sydd, yn eu barn nhw, yn debygol o wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal a/neu'r bobl ynddi, ar yr amod nad yw deddfwriaeth arall yn cyfyngu ar eu gallu i wneud hynny[3].

Serch hynny, nid yw Adran 2 yn galluogi'r Awdurdod Lleol i wneud unrhyw beth na all ei wneud oherwydd gwaharddiad neu gyfyngiad ar ei bwerau yn sgil unrhyw ddeddf (pryd bynnag y cafodd ei chadarnhau neu ei deddfu)[4].

Felly, rhaid i Awdurdodau Tai Lleol roi sylw i Adran 24, Deddf Llywodraeth Leol 1988[5] (yn amodol ar Adran 25) sy'n rhoi'r pŵer i'r Awdurdod Tai Lleol roi cymorth ariannol i unrhyw berson at y diben o gaffael, adeiladu, trawsnewid, adsefydlu, gwella, cynnal a chadw neu reoli (gan y person hwnnw neu rywun arall) unrhyw eiddo, sy'n cael ei osod yn breifat fel llety tai, neu y bwriedir ei osod yn breifat fel llety tai, neu mewn cysylltiad â hyn.

[3] Adran 2, Deddf Llywodraeth Leol 2000
[4] Adran 3, Deddf Llywodraeth Leol 2000
[5] Adran 24, Deddf Llywodraeth Leol 1988

Diffinnir llety preswyl sy'n cael ei osod yn breifat fel 'unrhyw gyfnod y mae'n cael ei ddefnyddio fel llety tai yn unol â les neu drwydded, o unrhyw ddisgrifiad, dan denantiaeth statudol, ac mae'r landlord agosaf yn rhywun heblaw Awdurdod Lleol'.

Nodir yn Adran 25, Deddf Llywodraeth Leol 1988, fod angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidog cyn darparu cymorth ariannol, oni bai bod[6] y cymorth neu'r budd yn cael ei roi wrth arfer unrhyw bŵer a gyflwynir gan Erthygl 3 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002[7].

O ganlyniad, ac oherwydd natur eang Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 a'r pwerau 'llesiant' cyffredinol a geir yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, bydd Awdurdodau Lleol yn gallu rhoi cymorth ariannol trwy ddarparu cynlluniau grantiau a benthyciadau yn ôl disgresiwn ar gyfer yr amrediad llawn o ymgeiswyr, a gallant osod unrhyw amodau neu delerau sy'n briodol yn eu barn nhw yn yr amgylchiadau.

## 2. DIBEN Y POLISI

Diben y polisi hwn yw nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn tai a dangos sut y bydd y buddsoddiad hwn yn cynorthwyo i gyfrannu at y weledigaeth a geir yn Strategaeth Dai'r Cyngor, Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, yn ogystal ag unrhyw gynlluniau rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru a/neu Orllewin Cymru e.e. Tyfu Canolbarth Cymru (ar gyfer adfywio) a/neu Fwrdd Cynllunio Rhanbarthol Gorllewin Cymru (ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol).

Dylid darllen y Polisi law yn llaw â'r cynlluniau strategol hyn ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig eraill.

Felly, mae'r Polisi hwn yn rhoi gwybodaeth i drigolion Ceredigion am y gwasanaeth cyngor a chymorth ariannol a allai fod ar gael gan y Cyngor i sicrhau bod y tai sy'n cael eu darparu yn ddiogel, yn ynni-effeithlon ac yn helpu i gynnal iechyd a llesiant preswylwyr. Mae'r polisi hwn ar gael i'r rheiny sy'n datblygu tai, perchnogion cartrefi yn y sector preifat a thenantiaid (yn amodol ar feini prawf penodol) ar draws y sir.

Bydd y Polisi hwn yn disgrifio'n fanwl:

- Y dewis llawn o gymorth a allai fod ar gael
- Pwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwn
- Faint o gymorth sy'n cael ei gynnig
- Amodau cyfreithiol sydd ynghlwm
- Sut y dylent ymgeisio

[6] Adran 25 (1)(f) Deddf Llywodraeth Leol 1988
[7] Cylchlythyr 20/02 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyfarwyddyd Adnewyddu

Bydd y cymorth yn cael ei dargedu at yr aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf oherwydd eu hoed, anabledd neu anfantais ariannol, neu'n canolbwyntio ar ardaloedd wedi'u targedu yn ôl diffiniad y Cyngor fel y rhai sydd â'r angen mwyaf.

Y bwriad gyda'r polisi hwn, felly, yw amlinellu'r grantiau mandadol a'r grantiau yn ôl disgresiwn sydd ar gael gan yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys y meini prawf cymhwystra, yr â'r amodau a'r telerau y mae'r Awdurdod Lleol yn eu gosod ar gyfer y rheiny sy'n dymuno cael y cyllid hwn. Bydd y Polisi hwn yn disodli'r polisïau hynny sydd eisoes ar waith ar gyfer grantiau a benthyciadau y mae'r awdurdod lleol yn eu cynnig ar hyn o bryd, a daw i rym ar 1 Chwefror 2022.

## 3. AMCANION Y POLISI

Mae'r polisi hwn yn cyfateb â nodau strategol y Strategaeth Dai Leol sy'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau y mae gwasanaethau tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai yn eu hwynebu yng Ngheredigion. Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod y gallai tai fforddiadwy, cynaliadwy, o ansawdd da, gael effaith positif a hirdymor ar iechyd, ffyniant economaidd a chynaliadwyedd cymunedol Ceredigion. Mae'r strategaeth hefyd yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran angen, cyflenwad, mynediad a fforddiadwyedd, ac yn edrych ar safonau tai, a gofynion Ceredigion yn y dyfodol. At hynny, mae'r polisi cymorth ariannol hwn yn galluogi gweithgareddau sy'n cyfrannu at flaenoriaethau Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor sy'n ymwneud yn benodol â Hwyluso Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd trwy 'hyrwyddo llesiant unigolion a theuluoedd o fewn cartrefi diogel, fforddiadwy a hygyrch.'

Felly, prif amcanion Polisi Cymorth Ariannol y Cyngor ar gyfer Benthyciadau a Grantiau Tai yw:

- Gwella cyflwr a diogelwch tai yn y Sir gyda'r nod sylfaenol o wella iechyd a llesiant preswylwyr.
- Cynyddu'r ddarpariaeth tai trwy wella neu drawsnewid adeiladau sydd eisoes yn bodoli at ddefnydd preswyl.
- Hyrwyddo'r gallu i fyw'n annibynnol trwy addasu eiddo yn y Sir, gan alluogi pobl ag anableddau i aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Hwyluso cartrefi cynhesach a mwy diogel y gall mwy o breswylwyr oedrannus a hyglwyf y Sir barhau i fyw ynddynt.
- Cynorthwyo i ostwng y nifer o aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd, trwy wella effeithlonrwydd ynni cartrefi, ac ar yr un pryd gweithio ar ran preswylwyr i ddenu cyllid allanol o amrywiaeth o ffynonellau (Llywodraeth Cymru, Cwmnïau Cyflenwi Ynni ayb) i gadw cost mesurau effeithlonrwydd ynni i'r lleiaf posibl ar gyfer perchentywyr.
- Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i wneud gwelliannau tai ar gyfer y rheiny sydd â'r angen mwyaf.

## 4. MATERION ALLWEDDOL

**Newid Diwylliant** – O ganlyniad i ostyngiad yn y cyllid cyfalaf a fu ar gael gan Lywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, mae argaeledd cyllid ar gyfer grantiau tai wedi gostwng yn sylweddol ac wedi dod i ben yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Felly, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael a sicrhau bod y stoc tai'n cael ei wella'n barhaus yn y sir, cydnabyddir bod angen defnyddio adnoddau prin mewn ffordd sy'n fwy cynaliadwy ac effeithiol. Mae'r polisi hwn, felly, yn cadarnhau'r angen i newid diwylliant cymorth grant trwy annog perchentywyr i gynnal a chadw ac atgyweirio eu cartrefi eu hunain, yn y lle cyntaf, trwy eu dulliau eu hunain, gan ddefnyddio cymorth trwy fenthyciadau gwella cartrefi lle maent ar gael ac, mewn amgylchiadau penodol ar gyfer pobl hyglwyf a/neu'r henoed, trwy'r cymorth grant sydd ar gael.

**Cyflwyno HWYLUSO – Cymorth i Fyw'n Annibynnol** – Er mis Ebrill 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio HWYLUSO sy'n dod â'r trefniadau presennol ar gyfer darparu addasiadau at ei gilydd trwy adeiladu ar y dewis o raglenni unigol a ffrydiau cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd. Cafodd ei ddylunio i gynnig yr un addasiadau syml, a gwasanaeth safonol, i unigolion ni waeth beth yw eu daliadaeth. Gwna hyn trwy fynd i'r afael â'r cysyniad o ddarparu addasiadau i'r cartref ar gyfer y defnyddiwr/cleient mewn tri chategori neu fath cyffredinol – bach, canolig, mawr. Ni waeth beth yw'r ddaliadaeth, neu sut y mae'r addasiadau'n cael eu hariannu, bydd y ffordd sylfaenol y bydd y defnyddiwr yn cael yr addasiadau y mae arno eu hangen yn dilyn un o'r tri chategori yma. Mae'r gwaith a ddiffinnir o fewn pob un o'r categorïau addasiadau'n cynnwys tri chategori cyffredinol o gymorth:

- "Bach" e.e. rheiliau cydio a rheiliau grisiau, tapiau lifer. Ni fydd prawf modd ar gyfer y grant hwn
- "Canolig" e.e. addasiadau fel cawodydd cerdded-i-mewn, lifftiau ar y grisiau a rampiau. Ni fydd prawf modd ar gyfer y grant hwn
- "Mawr" e.e. addasiadau sy'n gofyn am newidiadau strwythurol mawr i eiddo a/neu estyniad i eiddo. Bydd prawf modd ar gyfer y grant hwn

Mae'r diwygiad polisi hwn, felly, yn ymgorffori'r categorïau addasiadau newydd hyn.

**Cronfa Benthyciadau** – Mae LIC yn cefnogi ac yn annog y dulliau arloesol hyn gan gynnwys cyfuniadau o grant/benthyciad, benthyciadau a rhyddhau ecwiti. Bydd benthyciadau gwella cartrefi yn darparu incwm gwerthfawr y gall yr Awdurdod ei ailddefnyddio wedi i'r benthyciad gael ei ad-dalu. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dull hwn ac wedi sicrhau bod nifer o gynnyrch benthyciadau ar gael – Benthyciadau Canol Trefi, Tro Tai'n Gartrefi, a Benthyciadau Gwella Cartrefi. Gwelir y Cynlluniau hyn fel ffordd o ddarparu arian ychwanegol er mwyn i unigolion a busnesau wneud gwelliannau i gartrefi a gwaith trawsnewid a fydd yn cyfrannu at y rhaglen gyffredinol o wella ansawdd cartrefi a chynyddu'r cyflenwad tai. Gwelir y cronfeydd hyn fel ffordd newydd o ddarparu cyllid ar gyfer awdurdodau lleol, yn hytrach na darparu cyllid grant traddodiadol. Gall Awdurdodau Lleol fenthyg y cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy'r 'trafodiad ariannol' y mae'n rhaid ei ad-dalu i LIC o fewn cyfnod penodol o amser.

**Rhwyd Diogelwch** – Cydnabyddir y bydd angen rhyw fath o gymorth ariannol uniongyrchol mewn achosion lle na fydd perchentywyr sy'n amlwg yn agored i niwed yn gallu helpu eu hunain trwy ddefnyddio eu dulliau ariannol eu hunain. Bydd cymorth ariannol uniongyrchol ar gael ar gyfer cyfleusterau i'r anabl, ac er mwyn delio â materion atgyweirio brys, gan gynnwys gwaith a wneir yn ddiofyn, lle bu angen i'r awdurdod lleol gamu i mewn i wneud gwaith ar ran preswylydd/perchennog yr eiddo.

**Model Llesiant Gydol Oed a Llesiant – datblygu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar** – wrth ddatblygu a ffurfioli gwasanaethau integredig ar gyfer gofal cymdeithasol ac iechyd, mae ffocws cynyddol ar sicrhau bod pobl yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain lle bo hynny'n bosibl. Gan gofio hyn, daw addasrwydd y cartrefi hyn ar gyfer perchentywyr, o ran eu cyflwr ac i ba raddau y gellir eu haddasu, yn fwyfwy pwysig. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu ymhellach gan y dyletswyddau a geir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015.

Mae'r Cyngor wrthi'n ceisio newid ar raddfa fawr i greu Model Gydol Oed a Llesiant newydd. Gweledigaeth y model yw 'sicrhau y bydd pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn. Sicrhau mynediad teg i bawb at wasanaethau cyffredinol ac wedi'u targedu rhagorol sy'n cynnal iechyd a llesiant yr holl ddinasyddion. Datblygu sgiliau a gwydnwch a fydd yn para oes ac yn galluogi unigolion i ymdopi'n dda â'r heriau a'r pwysau y gallant eu hwynebu.' Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach y ffocws ar wella annibyniaeth a mynediad at wasanaethau.

**Eiddo Gwag** – Mae canran sylweddol o eiddo gwag yn y Sir. Mae eiddo gwag yn adnodd gwastraff. Cynnig allweddol yn Strategaeth Dai'r Cyngor yw gweithio'n agos gyda phartner i brynu, adnewyddu a/neu rentu eiddo fu unwaith yn wag.

**Cynlluniau adfywio ar sail ardal a/neu effeithlonrwydd ynni** – Mae'n amlwg bod ardaloedd yn y sir lle mae angen mabwysiadu dull mwy strategol ar gyfer gwella tai. O bryd i'w gilydd, bydd cyllid ar gael megis Cartrefi Clyd Arbed sy'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni'r stoc tai neu gydnabod effaith allweddol tai ar waith adfywio ardaloedd. Ymdrecha'r awdurdod lleol i geisio am gyllid o'r fath, er mwyn sicrhau bod cyllid yn parhau i gael ei ddenu i'r ardal ar gyfer gwelliannau cyfalaf adfywio a/neu dai.

## 5. Y CYMORTH ARIANNOL SYDD AR GAEL A'R AMODAU SYDD YNGHLWM

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ystyried pob cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl (GCA) mandadol, a weinyddir dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (fel y'i diwygiwyd) a cheir manylion penodol am y grant yn y Ddeddf Seneddol honno ac mewn cyfarwyddyd cysylltiedig. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu pedwar grant arall ar gyfer cyfleusterau i'r anabl – Cymorth gyda Chyfleusterau i'r Anabl, Grant Adleoli, Grant Cyfleusterau i'r Anabl (gwaith canolig) a Grant Cyfleusterau i'r Anabl (gwaith bach). Bydd pob cais am gymorth yn

ddarostyngedig i asesiad o angen gan aelodau o Borth Cynnal a Phorth Gofal y Cyngor. Rho'r polisi hwn y meini prawf i sicrhau bod grantiau'n cael eu dyfarnu gyda thegwch a chysondeb.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau bod anghenion y rheiny fu'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog yn cael eu cydnabod. Bydd y Polisi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl hwn yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i'r ceisiadau hynny a ddaw gan y rheiny fu'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, lle y mae eu hanabledd yn ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog.

At hynny, er mwyn gwireddu amcanion y polisi hwn ac, yn sgil hynny, nodau strategol ehangach Amcanion Corfforaethol yr Awdurdod Lleol a Chynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a dogfennau cysylltiedig, mae'r Cyngor yn rhoi'r cymorth canlynol fel grantiau a benthyciadau (mae'r rheiny sydd wedi eu labelu fel rhai sydd 'yn ôl disgresiwn' yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael).

**HWYLUSO – Addasiadau Mawr (cyllid mandadol)**

- Grant Cyfleusterau i'r Anabl (Mawr)

**HWYLUSO – Addasiadau Bach a Chanolig (cyllid yn ôl disgresiwn)**

- Cymorth Addasiadau ar gyfer Pobl Anabl
- Grant Addasiadau i'r Anabl (Canolig)
- Grant Addasiadau i'r Anabl (Bach)
- Grant Adleoli

**Atgyweiriadau Brys i'r Cartref (yn ôl disgresiwn)**

- Cymorth ar gyfer atgyweiriadau brys
- Benthyciad Oes
- Cymorth ategol gydag iechyd a thai

**Benthyciadau Gwella Cartrefi (yn ôl disgresiwn)**

- Benthyciad Gwella Cartrefi (Diogel, Cynnes a Saff)
- Benthyciad Troi Tai'n Gartrefi (Cynllun Benthyciadau Eiddo Gwag)

Bydd argaeledd unrhyw gymorth Grant neu Fenthyciad yn amodol ar weithdrefn gosod cyllideb flynyddol y Cyngor. Cynigir pob grant/benthyciad nad yw'n fandadol yn ôl disgresiwn y Cyngor, ac mae'r fframwaith ar gyfer y grantiau/benthyciadau hyn yn amodol ar y Polisi hwn.

Ceir manylion pob grant/benthyciad yn yr Atodiadau.

Dyfernir rhai grantiau a/neu fenthyciadau ar yr amod y bydd yr ymgeisydd yn ad-dalu'r grant/benthyciad i'r Cyngor yn llawn os yw'r eiddo'n cael ei werthu neu os nad yw'n cael ei ddefnyddio yn ôl y bwriad o fewn cyfnod penodol o amser. Rhoddir manylion llawn amodau'r grant/benthyciad i'r ymgeisydd, yn ysgrifenedig, adeg cymeradwyo'r grant/benthyciad.

Mae cyfnod amodau'r grant/benthyciad yn dechrau ar y dyddiad y cwblheir y gwaith i foddhad y Cyngor. Gan ddibynnu ar y math o grant neu fenthyciad, cyflwynir pridiannau gyda'r Gofrestrfa Tir cyn cymeradwyo'r grant/benthyciad neu fel Pridiant Tir Lleol pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau (gan ddibynnu ar y math o grant/fenthyciad) a'i werth.

Cofrestrir Pridiant Tir Lleol yn erbyn yr eiddo mewn perthynas â Grantiau a Benthyciadau sy'n llai na £5,000 pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau. Bydd y pridiant tir hwn yn gwarantu'r arian a geir gan yr awdurdod lleol, ac yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir. Cofrestrir unrhyw grant/benthyciad a delir dros £5,000 yn uniongyrchol fel Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir.

Mewn rhai amgylchiadau, gellir ystyried hepgor amodau ar y grant/benthyciad. Y Rheolwr Tîm fydd yn gwneud unrhyw benderfyniadau ar hepgor ad-daliad wedi dod i gytundeb gyda'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Aelod Cabinet priodol mewn cydweithrediad â'r Gwasanaethau Ariannol, gyda disgresiwn i ddwyn y penderfyniadau hyn gerbron y Panel Grantiau/Benthyciadau perthnasol fel y bo'n briodol.

Mae amodau Grant Cyfleusterau i'r Anabl a osodir o dan y Polisi hwn yn parhau fel y diffinnir yn Neddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 ac unrhyw Reoliadau cysylltiedig a wneir o dan y Ddeddf hon, yn ogystal â'r rheiny y manylir arnynt yn y Polisi hwn. Er bod y Polisi hwn yn rhoi arweiniad ar yr amodau, mae cyfarwyddyd manwl a datganiad cyfreithiol ar gael ynghylch y ddeddfwriaeth hon.

Ar gyfer rhai mathau o grantiau a benthyciadau yn ôl disgresiwn, gosodir amodau ar grant/benthyciad naill ai trwy bridiant tir lleol neu Bridiant Cyfreithiol llawn gyda'r Gofrestrfa Tir, gan ddibynnu ar werth y benthyciad/grant. Diffinnir y pwerau sy'n galluogi'r awdurdod lleol i sicrhau'r pridiannau hyn o fewn Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2002, a chânt eu hamlinellu at sylw'r sawl sy'n ymgeisio am y grant/benthyciad o fewn y llythyr sy'n Cynnig y Grant/Benthyciad a/neu'r Cytundeb. Fel amod ar gyfer y cynnig o grant/benthyciad bydd yn rhaid i'r ymgeisydd gytuno bod pridiant tir lleol neu bridiant cyfreithiol yn cael ei warantu ar yr eiddo, ac unrhyw olynwyr â theitl os na ad-dalwyd yr arian cyn yr amser hwn.

| **5.1 Tabl o Amodau Grant/Benthyciad**<br>**Math o Grant** | **Cyfnod yr Amod** | **Amodau Grant/Benthyciad** |
|---|---|---|
| **ADDASIADAU HWYLUSO** | | |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl Mandadol (Mawr) | 10 mlynedd | Uchafswm Grant = £36,000<br>Rhaid i'r ymgeisydd barhau i fyw yn yr eiddo fel ei unig breswylfa am gyfnod cyfan yr amod ar y grant.<br><br>Rhaid defnyddio gwasanaethau'r gwasanaeth gwella cartrefi mewnol ar gyfer pob GCA mandadol.<br><br>Rhaid i asesiad ac argymhelliad Therapydd Galwedigaethol gefnogi cymorth i addasu. |
| Cymorth Addasiadau ar gyfer Pobl Anabl (yn ôl disgresiwn) | Adeg gwerthu/trosglwyddo/gwaredu'r eiddo | Uchafswm cymorth ariannol o £15,000 (gyda'r gallu yn ôl disgresiwn i gynyddu hyn drwy benderfyniad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet). DS, nid yw hwn yn gymorth grant, ond yn gymorth ariannol a ddarperir am y cyfnod y mae'r sawl sy'n ei dderbyn yn byw yn yr eiddo.<br><br>Cymorth ariannol i'w ad-dalu wedi gwerthu/trosglwyddo'r eiddo. Bydd Pridiant Cofrestrfa Tir yn gymwys. Rhaid defnyddio gwasanaethau'r Gwasanaeth Gwella Cartrefi Mewnol er y gellid ystyried eithriadau.<br><br>Rhaid i asesiad ac argymhelliad Therapydd Galwedigaethol gefnogi cymorth i addasu. |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ôl Disgresiwn (Canolig) | Dim amod: | Uchafswm Grant = £36,000<br><br>Rhaid defnyddio gwasanaethau'r Gwasanaeth Gwella Cartrefi Mewnol ar gyfer pob GCA yn ôl disgresiwn.<br><br>Rhaid i asesiad ac argymhelliad Therapydd Galwedigaethol, Cynorthwyydd Therapydd Galwedigaethol neu Aseswyr |

| | | |
|---|---|---|
| | | Dibynadwy gefnogi cymorth i addasu. |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ôl disgresiwn (Bach) | Dim amod: | Uchafswm Grant = £5,000<br><br>Rhaid i'r ymgeisydd fyw yn yr annedd fel ei unig neu brif breswylfa.<br><br>Rhaid i asesiad ac argymhelliad Therapydd Galwedigaethol, Cynorthwyydd Therapydd Galwedigaethol neu Aseswyr Dibynadwy gefnogi cymorth i addasu. |
| Grant Adleoli | 10 mlynedd | Uchafswm Grant = £10,000<br>Mae rhagdybiaeth yn erbyn dyfarnu Grant Cyfleusterau i'r Anabl lle nad yw'r eiddo'n addas yn y tymor hir i anghenion yr ymgeisydd.<br><br>Er mwyn cynorthwyo person anabl i symud i eiddo sy'n fwy addas lle y mae'n fwy cost-effeithiol nag addasu'r cartref presennol, ystyrir talu costau cyfreithiol a symud yn ychwanegol at y costau addasu. |
| **Cymorth ar gyfer Atgyweiriadau Brys (yn ôl disgresiwn)** | | |
| Cymorth ar gyfer atgyweiriadau brys (yn ôl disgresiwn) | Adeg gwerthu/trosglwyddo/gwaredu'r eiddo | Uchafswm cymorth ariannol = £5,000.<br>DS, nid yw hwn yn gymorth grant, ond yn gymorth ariannol a ddarperir am y cyfnod y mae'r derbynnydd yn byw yn yr eiddo.<br><br>Rhaid i'r ymgeisydd fyw yn yr annedd fel ei unig neu brif breswylfa a rhaid bod ganddo fudd perchennog yn yr annedd, neu raid ei fod yn denant yr annedd hwn fel unigolyn neu ar y cyd ag eraill ac yn meddu ar 'ddyletswydd pŵer' i gyflawni'r holl waith dan sylw (e.e. yn achos tenantiaid, fel arfer mae dyletswydd neu 'rwymedigaeth i atgyweirio' ar y landlord ac nid y tenant), neu |

| | | |
|---|---|---|
| | | feddiannu'r annedd o dan deitl ecsgliwsif i feddiannu a roddwyd am oes.<br><br>Mewn perthynas â chartref symudol, rhaid i'r meddiannydd fodloni cyfnod cymhwyso preswylio o 3 blynedd. |
| Benthyciad Oes | Adeg gwerthu/trosglwyddo/gwaredu'r eiddo | Uchafswm benthyciad = £15,000<br><br>Ar gyfer benthyciadau hyd at £5,000 caiff pridiant tir lleol ei warantu ar yr eiddo a bydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.<br><br>Ar gyfer benthyciadau dros £5,000 cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir. |
| Cymorth ategol gydag iechyd a thai | Adeg gwerthu/trosglwyddo/gwaredu'r eiddo | Dim uchafswm ond yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael.<br><br>Ar gyfer benthyciadau hyd at £5,000 caiff pridiant tir lleol ei warantu ar yr eiddo a bydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.<br><br>Ar gyfer benthyciadau dros £5,000 cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir. |
| Grantiau nad ydynt ar gael mwyach er bod amodau'r grantiau mewn grym o hyd. | | |
| Grantiau Menter Arbennig (Ardal Adnewyddu Aberystwyth yn unig)<br>a. Effeithlonrwydd ynni<br>b. Trawsnewid – defnydd un aelwyd<br>c. Trawsnewid – fflatiau hunangynhaliol | 10 mlynedd | Gosodir swm y grant fel Pridiant Tir Lleol ar yr eiddo am gyfnod o 10 mlynedd. |
| **BENTHYCIADAU** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Troi Tai'n Gartrefi (Cynllun Benthyciad Eiddo Gwag) | Am gyfnod cyfan y benthyciad | Uchafswm benthyciad = £25,000 yr uned o lety<br>Gwarantir benthyciadau fel pridiant cyntaf neu ail bridiant yn erbyn Teitl y Gofrestrfa Tir.<br><br>Uchafswm benthyciad lle mae rhenti yn seiliedig ar Gyfradd Lwfans Tai Lleol = £35,000 yr uned o lety. |
| Benthyciad Gwella Cartrefi | Am gyfnod cyfan y benthyciad | Uchafswm benthyciad = £35,000 yr uned o lety<br><br>Ar gyfer benthyciadau hyd at £5,000 caiff pridiant tir lleol ei warantu ar yr eiddo a bydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.<br><br>Ar gyfer benthyciadau dros £5,000 cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir. |

### 5.2 Hepgor Amodau'r Grant/Benthyciad

Mewn rhai amgylchiadau, gall y Cyngor ddefnyddio'i ddisgresiwn i hepgor ad-daliad grant/benthyciad. Caiff pob achos ei ystyried yn unigol ac mae'n gyfrifoldeb ar y sawl sy'n ymgeisio am y grant/benthyciad i brofi bod rhesymau cyfreithlon dros ei anallu i gadw at yr amodau. Bydd y Rheolwr Corfforaethol â chyfrifoldeb dros grantiau a benthyciadau ar gyfer addasiadau yn gwneud penderfyniad ar y cyd â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Aelod Cabinet priodol mewn cydweithrediad â'r Gwasanaethau Ariannol pan dderbynnir cais ysgrifenedig sy'n cynnwys y dogfennau ategol gofynnol.

Gellir cael copi o amodau'r grant/benthyciad gan y Gwasanaeth Tai o dan y Porth Gofal ac maent yn benodol i'r math o grant/benthyciad a dderbynnir.

Mae pethau penodol y mae'r Cyngor yn eu hystyried cyn gorfodi'r gofyniad i ad-dalu Grant Cyfleusterau i'r Anabl mawr. Un o'r pethau hyn yw ei fod yn fodlon ei bod yn rhesymol gofyn am ad-daliad, a bydd yn ystyried y canlynol yn unol â Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996/Caniatâd Cyffredinol Grant Cyfleusterau i'r Anabl (Amodau'n ymwneud â chymeradwyo neu dalu'r Grant) 2008: -

- i ba raddau y byddai'r sawl sy'n derbyn y grant yn dioddef caledi ariannol petai gofyn iddo ad-dalu cyfran o'r grant neu'r cyfan ohono;
- a fyddai gwaredu'r eiddo yn galluogi i dderbynnydd y grant gymryd swydd, neu newid lleoliad cyflogaeth y derbynnydd;

- a fyddai'r eiddo'n cael ei waredu am resymau sy'n gysylltiedig ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu lesiant meddwl derbynnydd y grant neu breswylydd anabl yr eiddo; ac
- a fyddai'r eiddo'n cael ei waredu i alluogi derbynnydd y grant i fyw gyda, neu gerllaw, unrhyw un sy'n anabl neu'n eiddil ac arnynt angen gofal y mae derbynnydd y grant yn bwriadu ei ddarparu, neu y mae'r person y mae derbynnydd y grant wedi symud i fyw gydag ef neu hi yn bwriadu darparu gofal y mae ar dderbynnydd y grant ei angen oherwydd anabledd neu eiddilwch.
- Yn ogystal, ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn ôl disgresiwn, ystyrir adeg derbyn y cais gan yr ymgeisydd/aelod o'r teulu petai amodau'r grant yn cael eu gorfodi a fyddai'n arwain at galedi ariannol diangen; gwaredir yr eiddo am resymau sy'n gysylltiedig ag iechyd neu lesiant corfforol neu feddyliol derbynnydd y grant neu feddiannwr anabl yr eiddo/aelod o'r teulu.

## 6. ASIANTAETHAU GWELLA CARTREFI

Yn aml, gall fod yn anodd dod o hyd i gontractwr adeiladu dibynadwy, cael amcanbrisiau a chomisiynu cynlluniau. Felly, mae'r Cyngor yn annog y rheiny sy'n ymgeisio am grant/benthyciad i ddefnyddio Gwasanaeth Goruchwylio Gwasanaeth Tai neu wasanaeth Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, i'w helpu gyda'r broses o ymgeisio am grant. Gall y Cyngor a Gofal a Thrwsio benodi contractwyr a goruchwylio unrhyw waith a wneir gyda chymorth grant, ar ran cleientiaid, fel bod y broses mor hwylus â phosib.

Fel arall, gall penseiri neu syrfewyr adeiladau â'r cymwysterau priodol ddarparu'r gwasanaeth hwn yn breifat i ymgeiswyr y grantiau. Gellir ystyried ffioedd gwasanaethau goruchwylio (hyd at uchafswm penodol) fel cost sy'n gymwys ar gyfer y grant, a'i gynnwys yn swm y grant a ddyfernir.

### 6.1 Gwasanaeth Goruchwylio Gwelliannau i Gartrefi Ceredigion

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch ac yn caniatáu i bob aelwyd dderbyn y grantiau yn effeithiol, gan gynnwys aelwydydd pobl hyglwyf a/neu oedrannus, mae'r Cyngor yn cynnig gwasanaeth goruchwylio llwyr yn fewnol.

Daw mwyafrif y ceisiadau am grant gan y Cyngor o aelwydydd hyglwyf neu oedrannus, ac wrth ddewis defnyddio Gwasanaeth Goruchwylio'r Cyngor, mae'n cael gwared ar y pryder a'r straen sy'n gallu codi wrth geisio am grant a goruchwylio gwaith adeiladwr wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer uchel o ymgeiswyr am grantiau wedi defnyddio gwasanaethau'r Gwasanaeth Goruchwylio i weithredu ar eu rhan. Bydd staff yn trefnu prawf perchnogaeth, darlunio cynlluniau, cyflwyno ceisiadau ar gyfer Caniatâd Adeiladu a Rheoliadau Adeiladu a gwneud yr holl waith ffurfiol wrth benodi contractwr adeiladu addas (ar ran preswylwyr). Caiff y gwaith adeiladu ei wneud i amserlen y cytunir arni a chaiff ei oruchwylio gan ein syrfewyr cymwys hyd nes iddo gael ei gwblhau i safon foddhaol

### 6.2 Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

Gweithia'r Cyngor yn agos gyda Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, sy'n bodoli er mwyn cynorthwyo pobl hŷn a phobl anabl i atgyweirio a gwella eu cartrefi. Mae Gofal a Thrwsio yn arbenigo mewn helpu preswylwyr dros 65 oed i ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau. Maent hefyd yn gweinyddu'r Rhaglen Addasiadau Cyflym, Cynllun Diogelwch yn y Cartref, Cynllun Tasgmon ac yn cynnig help a chyngor ar fudd-daliadau, cynnal a chadw'r cartref a chyllid llesiannol posibl.

Mae Gofal a Thrwsio hefyd yn cyflwyno ymholiadau ynghylch grantiau ar gyfer eu cleientiaid ac, mewn rhai amgylchiadau, yn cynnig gwasanaeth i benodi a goruchwylio contractwyr sy'n gallu gwneud gwaith y telir amdano gydag arian preifat.

Mae'r Cyngor yn falch o weithio mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Gofal a Thrwsio, sy'n darparu gwasanaethau atgyweirio, gwybodaeth ac eiriolaeth gwerthfawr sy'n rhan annatod o nodau'r polisi hwn. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gofal a Thrwsio ar 01970 639920.

## 7. GRANTIAU/BENTHYCIADAU A YSTYRIR MEWN AMGYLCHIADAU ARBENNIG

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd achlysuron pan na fydd ei bolisi cyffredinol yn darparu fframwaith ar gyfer amgylchiadau arbennig neu unigryw sy'n codi. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen ystyried darparu cymorth y tu allan i gwmpas y polisi. Mae'r enghreifftiau o amgylchiadau arbennig yn cynnwys gwella a thrwsio eiddo drws nesaf i'w gilydd, ynghyd ag addasiadau, trawsnewid, estyniadau, cynlluniau gwella tai ynni-effeithlon ac ailadeiladu waliau cynnal. Dyfernir cymorth ariannol mewn amgylchiadau arbennig ar argymhelliad swyddog yn unig, a rhaid cytuno iddo ymlaen llaw yn unol â’r pwerau dirprwyedig a roddwyd i Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal (a nodir yn y Cyfansoddiad) gan ymgynghori â’r Aelod Cabinet perthnasol.

## 8. GWAITH SY'N GYMWYS AR GYFER GRANT/BENTHYCIAD YNG NGHEREDIGION

Swyddogion Addasiadau a Gwelliannau Tai, Safonau Tai ac Effeithlonrwydd Ynni'r Cyngor sy'n penderfynu ar yr holl waith sy'n gymwys ar gyfer grant/benthyciad, a byddant yn llunio manyleb ar gyfer y gwaith cymwys ymhob achos unigol. Bydd cost y gwaith yn cael ei phennu trwy ddefnyddio trefnlen safonol o brisiau, a chymharu hyn gyda dyfynbrisiau a geir gan adeiladwyr ar gyfer y gwaith hwn. Bydd hyn yn sylfaen i ddyfarniad y grant/benthyciad. Ceir eithriad i hyn ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl lle mae Therapydd Galwedigaethol, Cynorthwyydd Therapydd Galwedigaethol neu Aseswyr Dibynadwy yn argymell y gwaith cymwys yn unol ag anghenion yr ymgeisydd. Wrth ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, mae'r Cyngor wedi ymgymryd â phroses gaffael lle y mae pob GCA yn cael ei ddarparu trwy gontract Fframwaith Mân Waith corfforaethol arbennig a adolygir bob dwy flynedd. Mae hyn yn golygu y gall y Cyngor ddefnyddio contractwr arbennig sydd â'r arbenigrwydd a'r

sensitifrwydd angenrheidiol i wneud y gwaith ar gyfer GCA, ac yn ei dro mae hyn yn sicrhau y darperir gwasanaethau cwsmeriaid o safon uchel iawn. Lle y bo'n briodol, cyfrifir cyfraniad cleientiaid tuag at y gwaith a chaiff ei nodi yn ystod y broses gymeradwyo. Cesglir y cyfraniadau ymlaen llaw, cyn cychwyn y contract, a bydd y Cyngor yn ei gadw i sicrhau y telir yn brydlon wedi cwblhau'r gwaith.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond gwaith cymwys sy'n gallu cael ei ystyried ar gyfer cymorth grant/benthyciad, a bydd swyddogion y Cyngor yn gallu rhoi cyngor penodol i ymgeiswyr ar eu cais grant unigol, gan ddibynnu ar gyflwr yr eiddo.

Gall y perchentywr gomisiynu gwaith heb gymorth grant/benthyciad ar yr un pryd, ond byddai'n gorfod ariannu'r costau hyn ei hun. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw waith a wneir ochr yn ochr â gwaith y grant/benthyciad, ond nid yw'r grant neu'r benthyciad yn talu amdano.

Rhaid gwneud yr holl waith yn ôl y fanyleb a osodir gan yr awdurdod lleol ac i'r safon ofynnol yn unol â safonau Rheoli Adeiladu.

Gellir cynnig gwaith effeithlonrwydd ynni gyda mathau eraill o gymorth grant/benthyciad os yn briodol, a gallai'r gwaith a nodwyd ddenu cymorth grant/benthyciad gan y Cyngor, neu o ffynonellau cyllid allanol y gallai'r Cyngor ddod o hyd iddynt a'u hawlio ar ran y preswylydd. Rhoddir cyngor ymhob achos unigol.

**Nid** yw cymorth grant ar gael tuag at gost symud dodrefn, costau llety arall dros dro neu gostau addurno fel papuro'r waliau a pheintio nac, ar gyfer ailosod cofi, rheiliau lluniau, rhosynnau nenfwd ayb, ar ôl cwblhau'r gwaith atgyweirio hanfodol. Yr unig eithriad i hyn yw'r Grant Adleoli a all dalu am gost dodrefn, symud a storio.

Rhaid i ymgeiswyr ystyried y costau ychwanegol fydd yn codi cyn derbyn cynnig grant a chyn symud ymlaen gyda'r gwaith â chymorth grant.

## 9. CYLLID

Bydd cyllid yn ôl disgresiwn yn cael ei fonitro'n agos a bydd ar gael yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael yn unig. Lle mae'r Therapydd Galwedigaethol/Cynorthwyydd Therapydd Galwedigaethol wedi darparu argymhelliad, bydd yn nodi a yw hyn yn 'gyffredinol' neu'n 'flaenoriaeth'. Caiff cynlluniau eu blaenoriaethu ar y sail hon.

## 10. FFIOEDD A THALIADAU

Wrth geisio am gymorth grant, bydd angen i ymgeiswyr dalu rhai ffioedd a thaliadau.

Gall ffioedd a thaliadau gynnwys unrhyw ffioedd sy'n briodol ym marn y Cyngor ac maent yn cynnwys:

- ffioedd cynllunio a rheoli adeiladu
- paratoi cynlluniau
- arolygon strwythurol
- gwasanaethau cyfreithiol

Bydd ffioedd am wasanaethau yn gymwys am gymorth grant dim ond os yw'r gwasanaethau hynny'n hanfodol i gwblhau'r broses o gymeradwyo'r grant yn ffurfiol.

Wrth ystyried cais am gymorth ar gyfer grantiau a delir yn ôl disgresiwn, caiff pob cost briodol a chymwys ei hystyried. Yn achos grantiau a delir yn ôl disgresiwn, mae uchafsymiau yn cyfeirio at gost y gwaith a dyfarnir ffioedd priodol yn ychwanegol at gyfanswm cost y gwaith. Yn achos y Grant Cyfleusterau i'r Anabl mandadol, rhaid cynnwys ffioedd yn uchafswm y grant. Ni all cyfanswm cost y gwaith a'r holl ffioedd fod yn fwy nag uchafswm y grant a ganiateir ar gyfer grant mandadol.

Rhaid i ymgeiswyr nodi na fydd unrhyw ffioedd, taliadau neu gostau sy'n codi fel rhan o'r broses o ymgeisio am grant yn cael eu had-dalu oni ddarperir anfonebau priodol ac mae'r cais am y grant yn symud yn ei flaen hyd nes cwblhau'r gwaith.

Mae hefyd yn ôl disgresiwn y Cyngor i ddyfarnu ffioedd cymorth grant rhesymol yn unig, ac efallai na fydd yn talu'r gost lawn os codir ffioedd afresymol neu ormodol.

Bydd ymgeisydd yn gyfrifol am unrhyw gostau sy'n codi os na fydd cais am grant yn symud ymlaen i'w gwblhau.

Yn sgil cyflwyno Benthyciadau Gwella Cartrefi Diogel, Cynnes a Saff, fel rhan o'r cynlluniau cenedlaethol hyn gall y Cyngor godi ffi weinyddu am sefydlu a gweinyddu'r benthyciad (bydd swm y ffi weinyddu hon wedi ei chynnwys yn nogfen ffioedd a thaliadau'r Cyngor a gyhoeddir ar wefan y Cyngor ar gyfer benthyciadau Gwella Cartrefi a Throi Tai'n Gartrefi).

Er mwyn annog perchen-feddianwyr i dderbyn cynnyrch Benthyciad Gwella Cartrefi, y bwriad yw cael yr awdurdod lleol i dalu'r ffi hon fel Grant Cais am Fenthyciad. Bydd y cymhelliant hwn yn dibynnu ar argaeledd arian yr awdurdod lleol at y diben hwn, a gellir tynnu'r cynnig yn ôl ar unrhyw adeg. Mewn amgylchiadau lle y mae landlordiaid hefyd yn awyddus i weithio gyda'r awdurdod lleol i gynyddu argaeledd eiddo i'w rhentu'n fforddiadwy, mae cymhelliant ar gael hefyd lle bydd ffioedd landlordiaid yn cael eu hepgor os yw'r eiddo'n cael ei gynnig i'w rhentu ar gyfradd y Lwfans Tai Lleol am gyfnod cyfan y benthyciad, ac mae'r landlord yn rhentu'r eiddo i denantiaid ar Gofrestr Tai Fforddiadwy'r Cyngor neu, fel arall, tenant a fyddai'n gymwys i fod ar y Gofrestr hon. Bydd gofyn i'r landlord lunio cytundeb 'Hawliau Enwebu'.

Ceir gwybodaeth bellach am ffioedd, taliadau, gofynion cymhwystra ac amodau pellach a Gweithdrefn Benthyciadau gyda'r manylion perthnasol yn Atodiadau A-B isod.

## 11. CWYNION

Nod y Cyngor yw ateb anghenion ei holl gwsmeriaid. Serch hynny, efallai y bydd adegau pan na fydd rhywun yn fodlon â'r gwasanaeth y mae wedi'i gael neu'r ffordd y daethpwyd i benderfyniad o ran y cais. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir cwyno trwy ddilyn ein gweithdrefn gwyno ffurfiol, naill ai trwy'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r Polisi Cwynion Corfforaethol, er mwyn cael ymchwiliad ac ymateb pellach. Y nod yw mynd i'r afael â chwynion mewn ffordd ragweithiol a cheisio sicrhau datrysiad cynnar lle nad yw defnyddwyr gwasanaethau yn fodlon gyda chanlyniad ein penderfyniad/gweithred. Felly, bydd pob cwyn yn derbyn ymateb ffurfiol, yn ysgrifenedig.

## 12. TREFNIADAU PONTIO A'R POLISI BLAENOROL

Bydd ceisiadau llawn am grant sydd wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol neu eu cyflwyno i'r Cyngor er mwyn derbyn penderfyniad cyn 1 Ionawr 2022 yn ddarostyngedig i'r Polisi a oedd mewn grym adeg cymeradwyo'r grant (Polisi Cymorth Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Ebrill 2018 gyda diwygiadau yn y blynyddoedd ar ôl hynny i adlewyrchu newidiadau mewn polisi).

Bydd ymholiadau am grant/benthyciad sydd wedi cael eu tirfesur, cynllun gwaith cymwys wedi cael ei gyhoeddi a chais ffurfiol am grant llawn* wedi ei wahodd cyn 1 Rhagfyr 2021 yn ddarostyngedig i'r meini prawf yn y polisi blaenorol. Bydd unrhyw ymholiadau yn y categori hwn ar gyfer pob grant (ac eithrio Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl) nad ydynt yn cyflwyno'r holl ddogfennau gofynnol i lunio cais llawn erbyn 1 Ionawr 2022 yn cael eu canslo, a bydd yn rhaid iddynt ymgeisio eto o dan amodau a thelerau'r Polisi hwn.

Bydd ffurflenni ymholiad ar gyfer yr holl grantiau a delir yn ôl disgresiwn a dderbynnir gan y Cyngor cyn 1 Rhagfyr 2021, ond lle na chyhoeddwyd cynllun gwaith, yn ddarostyngedig i'r meini prawf cymhwystra, yr amodau a'r telerau yn y Polisi hwn.

* Ystyrir 'cais am grant llawn' fel yr holl ddogfennau gofynnol er mwyn i'r Cyngor allu gwneud penderfyniad ffurfiol (cymeradwyo neu wrthod) ynghylch y cais. Gall y ddogfennaeth hon gynnwys (lle y bo'n briodol) y ffurflen gais, tystiolaeth o'r holl incwm a chynilion, prawf perchnogaeth, tystysgrif meddiannaeth yn y dyfodol, amcanbrisiau contractwyr, darluniau ayb ynghyd ag unrhyw wybodaeth benodol arall y gofynnwyd amdani mewn perthynas â'r ymholiad arbennig hwn.

## 13. DATBLYGU'R POLISI YMHELLACH

Bwriad y Cyngor yw adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd i sicrhau y ceir y buddion pennaf o'r cymorth ariannol sydd ar gael trwy sicrhau 'cynnydd ychwanegol' o'r rhaglen tai cyfalaf a chronfeydd benthyciadau sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys ceisio'r holl gyfleoedd buddsoddi allanol, gweithio gyda phartneriaid a darparu cymorth ariannol sy'n sicrhau'r canlyniadau pennaf yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

Bydd adolygiadau rheolaidd yn ystyried newidiadau i flaenoriaethau tai strategol cenedlaethol a lleol, y nifer sy'n derbyn grantiau a chyfyngiadau ar y gyllideb.

Bydd grantiau hefyd yn cael eu gwerthuso, gan gynnwys Asesiadau Effaith Integredig i adnabod 'cynnydd ychwanegol' o gyfrannu at amcanion strategol ehangach y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella'n barhaus o fewn y cyfyngiadau ariannol sy'n bodoli/y gellir eu rhagweld sy'n cael eu gosod ar yr Awdurdod Lleol.

**ATODIAD A – HWYLUSO – Cymorth i Fyw'n Annibynnol**

**GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL A DIOGEL, CYNNES A SAFF**

| **GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL MANDADOL (GCA – Mawr)** | |
|---|---|
| **Diben/prif ddeilliannau** | Mae GCAau ar gael ar gyfer gwaith mawr i addasu eiddo at anghenion penodol person anabl sy'n byw yn yr eiddo. Rhoddir cymorth i:<br>• Hwyluso mynediad<br>• Darparu cyfleusterau addas<br>• Gwneud adeilad yn ddiogel i'w ddefnyddio<br>• Gwneud gwelliannau amgylcheddol i alluogi'r person anabl i fyw'n ddiogel yn eu cartref<br><br>Mae gwaith mawr yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):<br>• Estyniad i'r eiddo gwreiddiol<br>• Lifftiau allanol<br>• Gwaith lle mae gwaith strwythurol yn cael ei wneud i'r eiddo, gan gynnwys y gofyniad ar gyfer Rheoliadau Adeiladu a Chynllunio |
| **Meini Prawf Cymhwystra (ymgeisydd)** | Er mwyn cael cynnig cymorth grant:<br><br>**Perchen-feddianwyr:** rhaid iddynt fod yn rhydd-ddeiliaid neu'n les-ddeiliaid gydag o leiaf 10 mlynedd ar ôl ar y les, a rhaid mai'r annedd yw eich unig breswylfa neu brif breswylfa.<br><br>**Tenantiaid:** gall unrhyw denant wneud cais am addasiad i bobl anabl (yn amodol ar ganiatâd y landlord).<br><br>**Landlordiaid:** lle y bydd tenant yn cyflwyno cais am GCA, rhaid bod y landlordiaid yn, neu byddant, yn rhydd-ddeilad neu'n les-ddeiliad gydag o leiaf 10 mlynedd ar ôl ar y les, a rhaid bod yr annedd(anheddau) yn cael eu gosod ar sail preswyl parhaol ac nid fel cartref gwyliau.<br><br>Gall person anabl gyflwyno cais am grant hyd yn oed os yw tu allan i'r diffiniadau uchod: bydd amgylchiadau pob unigolyn yn cael eu hystyried fel sail ar gyfer cymorth grant, yn amodol ar asesiad angen gan therapydd galwedigaethol ac ar gais am gymorth grant.<br><br>**Adnoddau Ariannol**<br><br>Perchen-feddianwyr a Thenantiaid Preifat – Prawf Statudol Adnoddau Ariannol, fel sy'n gymwys i Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (HRGR 1996) yn gymwys. Swm y grant a ddyfernir fydd y gwahaniaeth rhwng y swm y gall yr ymgeisydd ei fforddio yn ôl yr asesiad a chyfanswm cost y gwaith cymwys.<br><br>Ystyrir cyfanswm incwm pob un sy'n berthnasol i'r cais. |

| | |
|---|---|
| | Nid yw grantiau i blant yn ddarostyngedig i brawf o adnoddau ariannol y rhieni.<br><br>Yr oedolyn anabl sy'n byw mewn eiddo sy'n ddarostyngedig i'r prawf modd lle y mae'n rhannu'r breswylfa gyda pherchen-feddiannydd (galllant fod yn perthyn i'w gilydd neu beidio).<br><br>Ni ystyrir oedran yr ymgeisydd. |
| **Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)** | Gwaith addasu sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r meddiannydd i barhau i fyw yn y cartref. Rhoddir cymorth i:<br><br>• Hwyluso mynediad<br>• Darparu cyfleusterau addas<br>• Gwneud adeilad yn ddiogel i'w ddefnyddio<br>• Gwneud gwelliannau amgylcheddol i alluogi'r person anabl i fyw'n ddiogel yn eu cartref<br><br>Pennir gwaith cymwys yn amodol ar asesiad angen gan Therapydd Galwedigaethol y Cyngor. |
| **Amodau** | Ar gyfer pob GCA, bydd yr Awdurdod Lleol yn gosod pridiant tir lleol ar yr eiddo yn unol â *Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996: Caniatâd Cyffredinol 2008* a fydd yn parhau am 10 mlynedd yn dilyn cwblhau gwaith y grant.<br><br>▪ Gwaredu'n Briodol<br>Wrth geisio am grant neu fenthyciad, bydd gofyn i ymgeiswyr lofnodi Tystysgrif Bwriad i Feddiannu, yn nodi bod yr ymgeisydd neu aelod o'r teulu yn bwriadu byw yn yr annedd fel ei unig breswylfa neu brif breswylfa trwy gydol cyfnod amodau'r grant, sef 10 mlynedd<br><br><u>Neu</u><br><br>Os yw'r ymgeisydd yn landlord, ei fod yn bwriadu gosod yr annedd fel preswylfa rhywun nad yw'n gysylltiedig ag ef ac yn cytuno i'r gwaith.<br><br>Mae rhagdybiaeth y bydd cymorth grant yn cael ei adennill yn llawn gan yr awdurdod lleol os torrir yr amod hwn. Mae hyn yn amodol ar awdurdod dirprwyedig a roddwyd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol i ystyried hepgor ad-daliad o fewn cyfnod yr amod mewn achosion penodol y gellir eu cyfiawnhau<br><br>Rhaid cwblhau'r gwaith yn y cynllun gwaith y cymeradwywyd y grant ar ei gyfer o fewn 12 mis i'r dyddiad cymeradwyo.<br><br>Amodau Grant Ychwanegol – Dirprwyir awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol benderfynu a ellir cyfiawnhau ad-dalu rhan o'r grant neu'r cyfan ohono mewn achosion penodol lle na chydymffurfiwyd, yn seiliedig fel arfer ar adennill canran o'r costau mewn perthynas â'r amser sy'n weddill ar y cyfnod sy'n ddarostyngedig i'r amodau ar y grant. Mae gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol awdurdod pellach hefyd i bennu p'un ai y gwarentir ymchwiliad i dwyll. Mewn achosion lle mae amheuaeth o dwyll |

| | |
|---|---|
| | – polisi'r awdurdod yw mynd ar drywydd achosion lle mae amheuaeth o dwyll, eu hadnabod ac ymchwilio iddynt.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynghori bod y grant hwn ar gael trwy Wasanaethau Goruchwylio Mewnol Addasiadau'r Cyngor yn unig. |
| **Uchafswm** | £36,000 yw uchafswm y cymorth grant sydd ar gael. |

| **CYMORTH YN ÔL DISGRESIWN GYDAG ADDASIADAU I'R ANABL** | |
|---|---|
| **Diben/prif ddeilliannau**<br><br>**Sylwch:**<br><br>Nid yw'r cyllid yn gymorth grant ond yn gymorth ariannol a ddarperir am y cyfnod y mae'r derbynnydd yn byw yn yr eiddo a bydd yn ad-daladwy pan gaiff yr eiddo ei werthu/ei drosglwyddo | Darparu cyllid ychwanegol ar gyfer gwaith addasu sy'n fwy na therfyn uchaf GCA. Gellir defnyddio hwn yn lle arian mandadol ar gyfer y rheiny nad ydynt yn gymwys i gael GCA mandadol am eu bod wedi methu'r prawf modd (neu nid ydynt yn gallu fforddio eu cyfraniad), ond nid ydynt yn gymwys am Fenthyciadau Gwella Cartrefi.<br><br>Mae'r cyllid hwn ar gael mewn amgylchiadau eithriadol yn unig a thrwy benderfyniad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet mewn achosion lle mae adroddiad ac argymhelliad y swyddog yn cynnig cyllid ychwanegol a delir yn ôl disgresiwn dros £15,000 lle ystyrir bod y gwaith yn hanfodol i ddarparu'r addasiadau angenrheidiol yn uwch na therfyn y GCA mandadol. Ar gyfer cyllid ychwanegol o lai na £15,000, rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Tai i ystyried pob achos. |
| **Meini Prawf Cymhwystra (ymgeisydd)** | Fel yn achos GCA mandadol, ond gallai hefyd gynnwys y rheiny sy'n methu'r prawf modd ond nad ydynt yn gallu talu ad-daliadau Benthyciad Gwella Cartrefi |
| **Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)** | Fel yn achos GCA mandadol ac yn unol ag argymhelliad Therapydd Galwedigaethol y Cyngor a'r Rheolwr Corfforaethol Tai. |
| **Amodau** | Ar gyfer pob grant a delir yn ôl disgresiwn, cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir, a bydd yn ad-daladwy wedi gwerthu neu drosglwyddo'r eiddo, am ba bynnag reswm, ar ba bynnag adeg.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynghori bod y grant hwn ar gael trwy Wasanaethau Goruchwylio Mewnol Addasiadau'r Cyngor yn unig. |
| **Uchafswm** | £15,000 (gyda'r disgresiwn i gynyddu hyn mewn amgylchiadau eithriadol gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet) |

<table>
<tr><th colspan="2">GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL YN ÔL DISGRESIWN (GCA – Canolig)</th></tr>
<tr><td>Diben/prif ddeilliannau</td><td>Mae GCAau yn ôl disgresiwn ar gael ar gyfer gwaith canolig i addasu eiddo at anghenion penodol person anabl sy'n byw yn yr eiddo. Rhoddir cymorth i:<br><br>• Hwyluso mynediad<br>• Darparu cyfleusterau addas<br>• Gwneud adeilad yn ddiogel i'w ddefnyddio<br>• Gwneud gwelliannau amgylcheddol i alluogi'r person anabl i fyw'n ddiogel yn eu cartref<br><br>Mae gwaith canolig yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):<br>• Cawodydd â mynediad gwastad<br>• Lifftiau ar y grisiau<br>• Rampiau (rampiau cymedrol lle nad oes angen Rheolaeth Adeiladau a Chynllunio)</td></tr>
<tr><td>Meini Prawf Cymhwystra (ymgeisydd)</td><td>Er mwyn cael cynnig cymorth grant:<br><br>Perchen-feddianwyr: rhaid iddynt fod yn rhydd-ddeiliaid neu'n les-ddeiliaid gydag o leiaf 10 mlynedd ar ôl ar y les, a rhaid mai'r annedd yw eich unig breswylfa neu brif breswylfa.<br><br>Tenantiaid: gall unrhyw denant geisio am addasiad i bobl anabl (yn amodol ar ganiatâd y landlord).<br><br>Landlordiaid: lle y bydd tenant yn cyflwyno cais am GCA, rhaid bod y landlordiaid yn, neu byddant, yn rhydd-ddeilad neu'n les-ddeiliad gydag o leiaf 10 mlynedd ar ôl ar y les, a rhaid bod yr annedd(anheddau) yn cael eu gosod ar sail preswyl parhaol ac nid fel cartref gwyliau.<br><br>Gall person anabl gyflwyno cais am grant hyd yn oed os yw tu allan i'r diffiniadau uchod: bydd amgylchiadau pob unigolyn yn cael eu hystyried fel sail ar gyfer cymorth grant, yn amodol ar asesiad angen gan Therapydd Galwedigaethol, Cynorthwywyr Therapydd Galwedigaethol neu Aseswr Dibynadwy ac ar gais am gymorth grant.<br><br>Adnoddau Ariannol<br><br>Perchen-feddianwyr a Thenantiaid Preifat – Ni fydd yn amodol ar Brawf Adnoddau Ariannol</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Meini Prawf Cymhwystra (gwaith) | Gwaith addasu sy'n ofynnol er mwyn galluogi'r meddiannydd i barhau i fyw yn y cartref. Rhoddir cymorth i:<br>• Hwyluso mynediad<br>• Darparu cyfleusterau addas<br>• Gwneud adeilad yn ddiogel i'w ddefnyddio<br>• Gwneud gwelliannau amgylcheddol i alluogi'r person anabl i fyw'n ddiogel yn eu cartref<br><br>Pennir gwaith cymwys yn amodol ar asesiad angen gan Therapydd Galwedigaethol, Cynorthwyydd Therapydd Galwedigaethol neu Aseswr Dibynadwy y Cyngor. |
| **Amodau** | Mae'r Cyngor yn cynghori bod y grant hwn ar gael trwy Wasanaethau Goruchwylio Mewnol Addasiadau'r Cyngor yn unig.<br><br>Ni fydd amodau ad-dalu ar y grant hwn. |
| **Uchafswm** | £36,000 yw uchafswm y cymorth grant sydd ar gael. |

| **GRANT CYFLEUSTERAU I'R ANABL YN ÔL DISGRESIWN (Bach) – GRANT ADDASU DIOGEL, CYNNES A SAFF** | |
|---|---|
| **Diben/prif ddeilliannau** | **Diogel, Cynnes a Saff/Mân Addasiadau:** Nod y Cyngor yw hwyluso mynediad hawdd a chyflym trwy'r system grantiau i ddarparu mân addasiadau a/neu addasiadau brys.<br><br>Mae gwaith bach yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):<br>• Rheiliau cydio<br>• Rheiliau<br>• Llwybrau<br>• Trothwyon drws â mynediad gwastad<br>• Grisiau<br>• Tapiau lifer<br>• Atgyweiriadau i addasiadau sy'n bodoli |
| **Meini Prawf Cymhwystra (ymgeisydd)** | Nid yw grantiau Diogel, Cynnes a Saff hyd at £5,000 (a TAW a ffioedd) yn ddarostyngedig i brawf modd<br><br>Ni all y Cyngor dalu am yr un addasiadau/gwaith ddwywaith.<br><br>Ni all y Cyngor dalu am ymestyn contract gwasanaeth y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol nac am brynu offer newydd lle nad yw'r offer wedi cael ei wasanaethu a'i gynnal a chadw fel y dylai. |

| | |
|---|---|
| **Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)** | Cymorth Diogel, Cynnes a Saff – Gallai Mân Addasiadau gynorthwyo gyda'r canlynol:<br><br>Mân addasiadau fel rheiliau cydio, grisiau a rampiau, tapiau lifer, atgyweirio addasiadau sydd eisoes yn bodoli.<br><br>Unrhyw waith cymorth arall yn ôl disgresiwn y Cyngor.<br><br>Mae'r grant ar gael ar argymhelliad Therapyddion Galwedigaethol, Cynorthwywyr Therapydd Galwedigaethol, Gweithwyr Gofal Cymunedol neu Aseswyr Dibynadwy. |
| **Amodau** | Mae'r Cyngor yn cynghori bod y grant hwn ar gael trwy Wasanaethau Goruchwylio Mewnol y Cyngor yn unig ond, ar gais yr ymgeisydd, ystyrir hepgor yr amod hwn.<br><br>Ni fydd amod ad-dalu ar y grant hwn. |
| **Uchafswm** | Hyd at £5,000 a ffioedd a TAW. |

| **GRANT ADLEOLI (GCA)** | |
|---|---|
| **Diben/prif ddeilliannau** | Mae rhagdybiaeth yn erbyn dyfarnu Grant Cyfleusterau i'r Anabl lle nad yw'r eiddo'n addas yn y tymor hir i anghenion yr ymgeisydd.<br><br>Bydd yr Awdurdod hefyd yn cynnig cymorth tuag at adleoli'r person anabl mewn amgylchiadau priodol, h.y. lle nad yw costau addasu'r eiddo yn rhesymol neu'n ymarferol, neu lle efallai na fydd addasu'r eiddo presennol yn bodloni anghenion y person anabl neu ei deulu/gofalwr yn ddigonol.<br><br>Felly, weithiau, gallai Therapydd Galwedigaethol adnabod perchentywr nad oes modd ateb ei anghenion gyda'i gartref presennol. Efallai na fydd addasiadau yn ymarferol mewn ambell eiddo, a gwneir y penderfyniad hwn ar y cyd â'r Gwasanaeth Addasiadau i'r Anabl. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd client yn gymwys i gael cymorth ariannol i symud o'i gartref presennol i eiddo mwy addas sydd naill ai wedi cael ei addasu i ateb ei anghenion neu lle mae'n ymarferol gwneud yr addasiadau. |

| | |
|---|---|
| **Meini Prawf Cymhwystra (ymgeisydd)** | Ar gyfer perchen-feddianwyr, cynigir Grant Adleoli ochr yn ochr â GCA a fydd yn ddarostyngedig i'r un meini prawf cymhwystra, prawf modd ac amodau ar ôl cwblhau ag sy'n berthnasol i'r grant Cyfleusterau i'r Anabl yn ôl disgresiwn/mandadol.<br><br>Wrth bennu lefel y cymorth, ystyrir ymarferoldeb a chost addasu'r eiddo presennol, a'r eiddo arfaethedig, a gwerth y ddau eiddo ar y farchnad.<br><br>Byddai'n rhaid i'r person anabl a'i gymar gael prawf adnoddau ariannol i bennu ei gyfraniad ariannol.<br><br>Mewn achosion lle mae'r person anabl yn blentyn, y rhieni neu'r gwarcheidwad â budd perchennog yn yr eiddo y mae'n symud iddo fydd yn ddarostyngedig i'r cyfrifiad prawf adnoddau. |
| **Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)** | Ni fydd y grant a gynigir yn fwy na chost addasu'r eiddo presennol.<br>Ar gyfer tenantiaid y sector preifat, ystyrir rhoi cymorth gyda chostau symud mewn achosion o galedi.<br>Gellir defnyddio'r grant i dalu am gostau sy'n gysylltiedig â symud yn unig, er enghraifft:<br>• ffioedd y cwmni gwerthu tai<br>• ffioedd cyfreithiwr<br>• costau symud<br>• costau cysylltu cyfleustodau hanfodol<br>• blaendal ar gyfer eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat<br><br>Mewn rhai achosion, efallai y byddwn hefyd yn ystyried cynorthwyo gyda chost carpedi a llenni a rhai darnau o gyfarpar newydd. Ond bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob achos.<br><br>Cynhelir asesiad o'r eiddo newydd gan y Therapydd Galwedigaethol er mwyn gweld a oes modd ateb anghenion byw bob dydd y person anabl yn yr eiddo hwnnw. Mewn cysylltiad â'r Swyddog Addasiadau Tai a Gwella, pennir costau unrhyw addasiadau y byddai eu hangen yn yr eiddo newydd. |
| **Amodau** | Cyflwynir pridiant gyda'r Gofrestrfa Tir ar yr eiddo newydd cyn gynted â phosibl ar ôl prynu'r eiddo.<br><br>Os digwydd i'r eiddo gael ei waredu o fewn 10 mlynedd i dalu'r grant a ddyfarnwyd, bydd yn rhaid ad-dalu'r grant yn ei gyfanrwydd. |
| **Uchafswm** | £10,000 yw uchafswm y cymorth grant sydd ar gael. |

**ATODIAD B – GRANTIAU A BENTHYCIADAU YN ÔL DISGRESIWN AR GYFER CYMORTH GYDA CHYNNAL A CHADW AC ATGYWEIRIO**

Mae tai mewn cyflwr gwael yn ffactor sylweddol yn achos pobl hŷn a/neu hyglwyf sy'n dioddef iechyd gwael ac sy'n dod i ddibynnu ar ofal cymunedol.

Serch hynny, gydag adnoddau cyfalaf cyfyngedig fel awdurdod lleol a phoblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy, nid yw'n bosibl cynorthwyo pob person hŷn neu hyglwyf.

Bydd gan rai pobl hŷn y gallu a/neu'r ffordd o dalu i gynnal a chadw eu cartrefi eu hunain. Gan gofio hyn, bydd cymorth grant a/neu fenthyciad yn cael ei dargedu at y rheiny â'r angen mwyaf. Gall y Cymorth ar gyfer Atgyweiriadau Brys gynorthwyo pobl hŷn a/neu hyglwyf nad oes ganddynt unrhyw ffordd ariannol arall o dalu am y gwaith hwn, i wneud gwaith atgyweirio hanfodol i'w cartrefi. At hynny, yn ddiweddar mae cyllid ar gael i awdurdodau lleol trwy Gynlluniau Benthyciad Gwella Cartrefi a Throi Tai'n Gartrefi, fel ffordd o ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer unigolion a busnesau, i wneud gwelliannau i'r cartref, a fydd yn cyfrannu at y rhaglen gyffredinol o wella ansawdd cartrefi a chynyddu'r cyflenwad tai.

Yn ogystal, gyda chyflwyno rhaglen adfywio Llywodraeth Cymru, Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, mae Benthyciadau Canol Trefi ar gael er mwyn targedu nifer o safleoedd ac eiddo gwag, nas ddefnyddir yn llawn a segur yng nghanol trefi, a chefnogi arallgyfeirio canol trefi trwy annog defnyddiau mwy cynaliadwy ar gyfer safleoedd ac eiddo gwag. Mae elfen benodol ar gyfer tai wedi'i chynnwys yn y cynllun hwn i gefnogi trawsnewid eiddo yn llety byw.

| **CYMORTH AR GYFER ATGYWEIRIADAU BRYS** | |
|---|---|
| **Diben/prif ddeilliannau** | **Cymorth ar gyfer Atgyweiriadau Brys:** Nod y Cyngor yw darparu cymorth ariannol ar gyfer atgyweiriadau brys i helpu gyda gwaith atgyweirio dybryd, i bobl hyglwyf a/neu'r oedrannus.<br><br>**Sylwch:** Nid yw'r cyllid yn gymorth grant ond yn gymorth ariannol a ddarperir am y cyfnod y mae'r derbynnydd yn byw yn yr eiddo a bydd yn ad-daladwy pan gaiff yr eiddo ei werthu/ei drosglwyddo |
| **Meini Prawf Cymhwystra (ymgeisydd)** | **I bobl dros 65 oed**<br><br>- Perchen-feddianwyr dros 65 oed â chynilion o lai na £15,000,<br>- Tenantiaid dros 65 oed â budd oes neu les hir mewn eiddo â chynilion o lai na £15,000, NEU<br>- Perchen-feddianwyr neu denantiaid sy'n derbyn budd-dal sy'n ddarostyngedig i brawf modd (neu'r cyfwerth)<br>- Cleientiaid y mae arnynt angen gofal lliniarol a/neu i alluogi eu rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty.<br><br>**Pobl dros 18 ac o dan 65 oed** – byddant hefyd yn gymwys i ymgeisio os ydynt yn bodloni'r meini prawf canlynol:<br><br>- Perchen-feddiannwr, **NEU** |

| | |
|---|---|
| | - Tenant â les hir, **AC**<br>- yn derbyn budd-dâl sy'n ddarostyngedig i brawf modd gan gynnwys: Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n seiliedig ar incwm, Credyd Gwarant Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai, Budd-dal y Dreth Gyngor, Credyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith ac mae ei incwm wedi ei gyfrifo yn llai na'r swm a bennir yn flynyddol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau at ddibenion prawf modd (£15,860 ar gyfer 2011/12) neu Gredyd Cynhwysol **NEU**<br>- bydd ymgeiswyr sy'n byw yn yr eiddo fel eu prif breswylfa ond nid ydynt yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau uchod sy'n gysylltiedig ag incwm yn ddarostyngedig i 'brawf modd' y *Rheoliad Gostwng Grant*. Bydd ymgeiswyr y cyfrifir eu cyfraniad fel llai na £1,000 (un mil o bunnau) yn gymwys ac yn cyfrannu'r swm a gyfrifwyd tuag at gost y gwaith.<br><br>Rhaid bod yr ymgeisydd yn byw yn yr annedd fel ei unig neu brif breswylfa, a rhaid bod ganddo fudd perchennog yn yr annedd neu raid ei fod yn denant i'r annedd hwn fel unigolyn neu ar y cyd ag eraill, a rhaid bod ganddo 'ddyletswydd pŵer' i wneud y gwaith dan sylw (e.e. yn achos tenantiaid fel arfer mae dyletswydd neu 'rwymedigaeth i atgyweirio' ar y landlord ac nid y tenant), neu feddiannu'r annedd o dan hawl ecsgliwsif i feddiannu a roddwyd am oes.<br><br>Mewn perthynas â chartref symudol, rhaid i'r meddiannydd fodloni cyfnod cymhwyso preswylio o 3 blynedd.<br><br>Gwneir gwiriad i weld a dalwyd unrhyw grantiau perthnasol yn flaenorol, i sicrhau na roddir mwy na £5,000 a ffioedd a TAW mewn unrhyw gyfnod o dair blynedd ar gyfer pob math o grant (Addasiadau Brys ac Atgyweirio Brys) (yn amodol ar yr eithriadau isod). Ni all y Cyngor dalu am yr un gwaith ddwywaith. |

| | |
|---|---|
| **Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)** | Gwaith atgyweirio ar gyfer sefyllfaoedd difrifol, annisgwyl a sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus sy'n gofyn am weithredu ar unwaith, er enghraifft:<br>- sicrhau ffabrig sylfaenol yr eiddo rhag i'r gwynt a'r glaw ddod i mewn<br>- amddiffyn meddianwyr rhag perygl dybryd<br>- atgyweirio ffenestri a drysau<br>- draenio diffygiol<br>- weirio peryglus<br><br>Unrhyw waith cymorth arall yn ôl disgresiwn y Cyngor. |

| | |
|---|---|
| **Amodau** | Rhaid ad-dalu'r cymorth ariannol hwn adeg gwerthu neu drosglwyddo'r eiddo.<br><br>Gosodir pridiant tir lleol a fydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynydd â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynghori bod y cymorth ariannol hwn ar gael trwy wasanaethau Gwasanaeth Goruchwylio Gwella Cartrefi'r Cyngor yn unig neu, ar gais yr ymgeisydd, ystyrir hepgor yr amod hwn. |
| **Uchafswm** | Hyd at £5,000 a ffioedd a TAW mewn cyfnod o 3 blynedd. |

| **BENTHYCIADAU GWELLA CARTREFI** | |
|---|---|
| **Diben/prif ddeilliannau** | Mae'r Benthyciadau Gwella Cartrefi hyn ar gael i gefnogi'r elfennau canlynol:<br><br>• Tai sy'n is na'r safon dderbyniol (Peryglon Categori 1 / Categori 2 / Safon Ansawdd Tai Cymru);<br>• Atgyweirio, Diogelwch Tân neu Ddiogelwch;<br>• Tai Gwag (Adnewyddu/Trawsnewid); |
| | • Effeithlonrwydd Ynni (ychwanegiad ECO);<br>• Cynlluniau Atgyweirio Grŵp/Amlen;<br>• Sector Rhentu Preifat (Cynlluniau Mynediad);<br>• Cymhorthion ac addasiadau ar gyfer pobl hŷn neu anabl neu ychwanegiad at y GCA.<br><br>Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac os yw'r gwaith yn cyfrannu at wneud yr eiddo'n gynnes, yn ddiogel neu yn saff, bydd yn dod o dan delerau'r cynllun. |
| **Meini Prawf Cymhwystra (ymgeisydd)** | Perchnogion tai sy'n is na'r safon ac yn cynnwys:<br>• Perchen-feddianwyr<br>• Landlordiaid<br>• Datblygwyr<br>• Elusennau/Trydydd Sector<br>Rhaid rhoi blaenoriaeth i berchentywyr a landlordiaid.<br>Rhaid rhoi blaenoriaeth i landlordiaid sy'n cynnig tai fforddiadwy / tai cymdeithasol / hawliau enwebu dros rent y farchnad.<br><br>Rhaid i'r ymgeisydd fforddio'r ad-daliad benthyciad misol a bydd yn ddarostyngedig i asesiad ariannol.<br><br>Ni ddylai ymgeiswyr:<br>• Fod â hanes credyd gwael a allai gynnwys:<br>• Dyfarniadau Llys Sirol<br>• Trefniadau Gwirfoddol Unigol |

| | |
|---|---|
| | • Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled<br>• Methdaliad (o fewn y 6 mlynedd diwethaf)<br>• Ansolfedd/Diddymu Cwmni<br>Unrhyw ddyled yn daladwy i'r Awdurdod Lleol adeg cyflwyno cais.<br><br>Ni ddylai ymgeiswyr:<br>• Fod â hanes credyd gwael a allai gynnwys:<br>• Dyfarniadau Llys Sirol<br>• Trefniadau Gwirfoddol Unigol<br>• Gorchymyn Rhyddhau o Ddyled<br>• Methdaliad (o fewn y 6 mlynedd diwethaf)<br>• Ansolfedd/Diddymu Cwmni<br>Unrhyw ddyled yn daladwy i'r Awdurdod Lleol adeg cyflwyno cais. |
| **Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)** | Rhaid bod unrhyw fenthyciad sy'n gofyn am waith yn cyfrannu at wneud yr eiddo yn **Gynnes, Diogel neu Saff**. Nid oes gofyniad bod yr eiddo'n bodloni pob un o'r meini prawf hyn. Gallai'r benthyciad dargedu un elfen allweddol.<br><br>Dylid defnyddio cynllun y benthyciad i gefnogi'r elfennau canlynol:<br>• Tai sy'n is na'r safon dderbyniol (Peryglon Categori 1 / Categori 2 / Safon Ansawdd Tai Cymru);<br>• Atgyweirio, Diogelwch Tân neu Ddiogelwch;<br>• Tai Gwag (Adnewyddu/Trawsnewid);<br>• Effeithlonrwydd Ynni (ychwanegiad ECO);<br>• Cynlluniau Atgyweirio Grŵp/Amlen;<br>• Sector Rhentu Preifat (Cynlluniau Mynediad);<br>• Cymhorthion ac addasiadau ar gyfer pobl hŷn neu anabl neu ychwanegiad at y GCA. |
| **Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)** | Nid yw hon yn rhestr gyflawn ac os yw'r gwaith yn cyfrannu at wneud yr eiddo'n gynnes, yn ddiogel neu'n saff, bydd yn dod o dan delerau'r cynllun.<br><br>Ni ddylai fod unrhyw beryglon Categori 1 (fel y diffinnir gan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai) ar ôl cwblhau'r gwaith os yw'r benthyciad yn Fenthyciad i Landlord, h.y. mae'r eiddo'n cael ei rentu.<br><br>Bydd swyddogion o'r awdurdod lleol yn ymweld â phob eiddo i bennu pa waith sy'n gymwys ac i drafod y broses ymgeisio am fenthyciad gyda'r ymgeisydd. |
| **Uchafswm Cyfnodau Benthyg** | Perchen-feddianwyr – uchafswm y cyfnod benthyg yw hyd at 10 mlynedd; Landlordiaid/Datblygwyr/Elusennau – uchafswm y cyfnod benthyg yw hyd at 5 mlynedd.<br><br>Bydd cyfnod y benthyciad yn cael ei gytuno adeg y cais, ac yn dibynnu ar werth y benthyciad a gallu ariannol yr ymgeisydd i'w ad-dalu. |

| | |
|---|---|
| **Telerau ad-dalu** | Telir ad-daliadau'r benthyciad trwy ddebyd uniongyrchol misol, oni chytunir fel arall yn ystod y broses ymgeisio.<br><br>Gyda benthyciadau i berchen-feddianwyr, gosodir y cyfnod ad-dalu i sicrhau y ceir ad-daliad o £50/mis o leiaf, a chytunir ar y cyfnod ad-dalu yn ystod y broses ymgeisio (hyd at uchafswm o 10 mlynedd). |
| **Amodau** | Ni all unrhyw fenthyciad a gynigir, ar ôl ystyried unrhyw forgais presennol, fod yn fwy nag 80% o werth yr eiddo ar y pryd. Mae'n bosibl, mewn rhai achosion i ddefnyddio eiddo arall fel gwarant ar gyfer y benthyciad.<br><br>Ar gyfer benthyciadau hyd at £5000 caiff pridiant tir lleol ei warantu ar yr eiddo a bydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.<br><br>Bydd y pridiant tir lleol hwn hefyd yn berthnasol i'r perchen-feddianwyr hynny sy'n derbyn Grant ar gyfer Ffi Ymgeisio am Fenthyciad, a bydd y tâl hwn yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl hyd nes i'r benthyciad gael ei ad-dalu.<br><br>Ar gyfer benthyciadau dros £5000, cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir a fydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynydd â theitl.<br><br>Rhaid i'r eiddo barhau wedi'i yswirio'n llawn yn erbyn colled neu ddifrod i'r gwerth adfer llawn. |
| **Uchafswm** | <u>Perchen-feddianwyr</u><br>Lleiafswm o £1,000 hyd at uchafswm o £35,000 yr uned<br><br><u>Landlordiaid</u><br>Lleiafswm o £1,000 hyd at uchafswm o £25,000 yr uned – rhent y farchnad.<br>Lleiafswm o £1,000 hyd at uchafswm o £35,000 yr uned – rhenti yn seiliedig ar Gyfradd Lwfans Tai Lleol. |
| **Grant ar gyfer Ffi Ymgeisio am Fenthyciad i berchen-feddianwyr** | Gall hyn gynnwys defnyddio'r gwasanaeth goruchwylio i oruchwylio'r gwaith. Ar yr amod nad oes diffygdalu ar y benthyciad neu unrhyw achos o dorri amodau'r grant, ni fydd angen ad-dalu'r grant. Gall yr awdurdod lleol benderfynu yn ôl ei ddisgresiwn i gymeradwyo'r Grant ar gyfer Ffi Ymgeisio am Fenthyciad mewn amgylchiadau penodol yn unig, wedi ystyriaeth y Rheolwr Corfforaethol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol. |
| **Ffioedd/Taliadau'r Benthyciad** | Bydd angen talu ffi weinyddol a delir unwaith yn unig a gellir ei thalu dros gyfnod cyfan y benthyciad neu ei thalu ymlaen llaw.<br><br>Mae'r holl ffioedd yn ddarostyngedig i newid blynyddol yn unol â Pholisi Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor. Mae'r ffioedd yn gywir adeg cymeradwyo'r Polisi yn Ionawr 2022<br><br>**Perchen-feddianwyr**<br>Benthyciad hyd at £5000 – ffi o £650<br>Benthyciad £5001 i £35,000 – ffi o £1000 |

| | |
|---|---|
| | Os na fydd Grant ar gael ar gyfer y Ffi Ymgeisio am Fenthyciad codir uchafswm o £500 ar yr ymgeisydd.<br><br>**Landlordiaid**<br>Benthyciad hyd at £10,000 – ffi o £1035<br>Benthyciad £10,001 – £35,000 – ffi o £1555<br>Benthyciad dros £35,000 – ffi o £2278<br><br>Bydd y ffioedd hyn i landlordiaid yn cael eu hepgor os yw'r eiddo'n cael ei gynnig i'w rhentu ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol am gyfnod cyfan y benthyciad, ac mae'r landlord yn rhentu'r eiddo i denantiaid sydd ar Gofrestr Tai Fforddiadwy y Cyngor neu, fel arall, i denant a fyddai'n gymwys i fod ar y Gofrestr hon gan lunio Cytundeb Hawliau Enwebu.<br><br>**Gwasanaeth Goruchwylio**<br><br>Gall yr Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaeth goruchwylio ar gyfer gwaith adeiladu i sicrhau cysondeb yn safonau'r saernïaeth a sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau mewn da bryd. Bydd hyn yn cynnwys mesur yr eiddo i lunio cynllun gwaith, gan gynnwys darluniau lle y bo angen, cael dyfynbrisiau am y gwaith, gan gynnwys offer arbenigol, a datrys unrhyw faterion wrth iddynt godi. Gall yr ymgeisydd ddewis y gwasanaeth hwn os yw'n dymuno gwneud hynny, am dâl o 10%.<br><br>Fel arall, mae rhwydd hynt i'r ymgeisydd ddewis ei gontractwyr ei hun i wneud y gwaith. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd yr awdurdod lleol yn atebol am ansawdd y saernïaeth nac yn dilyn i fyny ynghylch diffygion wedi i'r gwaith gael ei gwblhau. |

| **BENTHYCIADAU OES** | |
|---|---|
| **Diben/prif ddeilliannau** | Efallai y bydd achos yn codi pan fydd eiddo mewn cyflwr mor ddifrifol (peryglon Categori 1) ac felly nid yw'n rhesymol i'r Cyngor adael i'r meddiannwr barhau i fyw yno heb wneud y gwaith. Gall y Cyngor gynnig Benthyciad Oes, yn ôl ei ddisgresiwn, ar gyfer peryglon Categori 1 yn yr eiddo. |
| **Meini Prawf Cymhwystra (ymgeisydd)** | Perchen-feddianwyr nad ydynt yn gallu bodloni'r gwiriad fforddiadwyedd ar gyfer Benthyciadau Gwella Cartrefi ond nad ydynt yn gymwys i gael Cymorth ar gyfer Atgyweiriadau Brys neu maent eisoes wedi derbyn yr uchafswm ar gyfer Cymorth Atgyweiriadau Brys.<br><br>Lle y bo'n gymwys, dylid ceisio arian cronfa les |

| | |
|---|---|
| **Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)** | Gwaith atgyweirio ar gyfer sefyllfaoedd difrifol, annisgwyl a sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus sy'n gofyn am weithredu ar unwaith, er enghraifft:<br>- sicrhau ffabrig sylfaenol yr eiddo rhag i'r gwynt a'r glaw ddod i mewn<br>- amddiffyn meddianwyr rhag perygl dybryd<br>- atgyweirio ffenestri a drysau<br>- draenio diffygiol<br>- weirio peryglus<br><br>Bydd y gwaith yn waith peryglon Categori 1 (System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai) yn unig.<br><br>Unrhyw waith cymorth arall yn ôl disgresiwn y Cyngor. Bydd swyddogion o'r awdurdod lleol yn ymweld â phob eiddo i bennu pa waith sy'n gymwys ac i drafod y broses ymgeisio am fenthyciad gyda'r ymgeisydd. |
| **Telerau ad-dalu** | Rhaid ad-dalu'r cymorth ariannol hwn adeg gwerthu neu drosglwyddo'r eiddo neu os na fydd yr ymgeisydd yn byw yn yr eiddo mwyach.<br><br>Gosodir pridiant tir lleol neu bridiant cyfreithiol llawn a fydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynydd â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.<br><br>Mae'r Cyngor yn cynghori bod y cymorth ariannol hwn ar gael trwy wasanaethau Gwasanaeth Goruchwylio Mewnol y Cyngor yn unig neu, ar gais yr ymgeisydd, ystyrir hepgor yr amod hwn.<br><br>Nid oes llog ar y benthyciadau hyd nes y dyddiad ar gyfer eu had-dalu.<br><br>Lle mae angen talu unrhyw swm ond nid yw'n cael ei ad-dalu yn unol ag amodau'r benthyciad, ystyrir hyn yn achos o dorri amodau. Mewn achosion o'r fath, gallai Cyngor Sir Ceredigion fynnu ad-daliad o'r benthyciad ar unwaith, a chodir llog o 5% yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr. |
| **Amodau** | Efallai y bydd y Cyngor yn ystyried argaeledd ecwiti yn yr eiddo wrth bennu faint o fenthyciad i'w roi.<br><br>Ar gyfer benthyciadau hyd at £5,000 caiff pridiant tir lleol ei warantu ar yr eiddo a bydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynwyr â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir.<br><br>Ar gyfer benthyciadau dros £5,000, cyflwynir Pridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir a fydd yn rhwymo'r ymgeisydd ac unrhyw olynydd â theitl. Cofrestrir y pridiant hwn ar y gofrestr pridiannau tir lleol ac, wedi hynny, gyda'r Gofrestrfa Tir. |
| **Uchafswm** | £15,000 yn cynnwys TAW (gyda'r gallu yn ôl disgresiwn i gynyddu hyn mewn amgylchiadau eithriadol i'w hystyried gan y Panel Grantiau) |
| **Ffioedd/Taliadau'r Benthyciad** | Ni chodir ffi weinyddu ar gyfer y benthyciad hwn. |

| BENTHYCIAD TROI TAI'N GARTREFI (EIDDO GWAG) | |
|---|---|
| **Diben/prif ddeilliannau** | Mae Troi Tai'n Gartrefi yn fenter gan Lywodraeth Cymru a ddyluniwyd i alluogi cartrefi gwag (sydd wedi bod yn wag ers o leiaf 6 mis) i gael eu defnyddio unwaith eto, i'w gwerthu neu ei rentu.<br><br>Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer:<br>• benthyciadau er mwyn defnyddio eiddo unwaith eto, i'w werthu – byddai gan y benthyciadau hyn uchafswm o 2 flynedd o gyfnod ad-dalu<br>• benthyciadau er mwyn defnyddio eiddo unwaith eto i'w rentu – byddai gan y benthyciadau hyn uchafswm o 5 mlynedd o gyfnod ad-dalu |
| **Meini Prawf Cymhwystra (ymgeisydd)** | Gellir cynnig benthyciadau i unigolion (disgwylir 3 mis o slipiau cyflog), elusennau (cyfrifon 3 blynedd), cwmnïau/busnesau (cyfrifon 3 blynedd).<br><br>Nid yw'r benthyciadau ar gael i bobl sydd am adnewyddu eiddo a byw ynddo fel eu prif gartref (gweler Benthyciadau Gwella Cartrefi). |
| **Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)** | Gwaith sy'n angenrheidiol i adnewyddu a gwella eiddo sengl neu drawsnewid eiddo gwag yn nifer o unedau, fel eu bod yn addas i'w defnyddio fel llety preswyl.<br><br>Bydd y cyllid ar gael cyn i'r gwaith ddechrau, gan roi cyfalaf gweithio i'r perchenogion. |
| **Telerau ad-dalu** | Bydd hyn yn ddibynnol ar yr hyn y bwriedir ei wneud gyda'r eiddo wedi cwblhau'r gwaith.<br>• Os yw un eiddo sengl yn cael ei adnewyddu, a'r bwriad yw ei werthu, rhaid ad-dalu'r benthyciad adeg gwerthu'r eiddo neu hyd at ddwy flynedd o ddyddiad cymeradwyo'r benthyciad, pa un bynnag sydd gynharaf.<br>• Os yw eiddo'n cael ei drawsnewid yn nifer o unedau, a'r bwriad yw eu gwerthu wedi cwblhau'r gwaith, disgwylir ad-dalu'r benthyciad adeg gwerthu'r uned gyntaf, neu mewn dwy flynedd, pa bynnag sydd gynharaf. Fodd bynnag, byddwn yn ymdrechu i drefnu amserlen ad-dalu trwy gytundeb rhwng y ddwy ochr.<br>• Os mai'r bwriad yw cynnig yr eiddo/unedau fel llety i'w osod, rhaid ad-dalu'r benthyciad o fewn 3 blynedd i'r dyddiad y cymeradwywyd y benthyciad.<br>• Gellir ad-dalu'r holl fenthyciadau yn gynharach os yw'r ymgeisydd yn dymuno gwneud hynny.<br><br>Nid oes llog ar y benthyciadau ar yr amod nad oes unrhyw ddiffygdalu ar y benthyciad.<br>• Lle mae angen talu unrhyw swm, ond nid yw'n cael ei ad-dalu yn unol ag amodau'r benthyciad, ystyrir hyn yn achos o dorri amodau. Mewn achosion o'r fath, gallai Cyngor Sir Ceredigion fynnu ad-daliad o'r benthyciad ar unwaith, a chodir llog o 5% yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr. |

| | |
|---|---|
| **Amodau** | Caiff y benthyciadau eu gwarantu fel pridiant cyntaf neu ail bridiant yn erbyn Teitl y Gofrestrfa Tir.<br><br>Gellir cynnig benthyciadau ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag ers chwe mis neu fwy.<br><br>Ni all unrhyw fenthyciad a gynigir, wedi ystyried unrhyw forgais presennol fod yn fwy na'r cyfraddau Benthyciad mewn cymhariaeth â Gwerth.<br>Benthyciad hyd at £25,000 – 80% Benthyciad mewn cymhariaeth â Gwerth<br>Benthyciad £25,001 – £100,000 – 75% Benthyciad mewn cymhariaeth â Gwerth<br>Benthyciad £100,001 – £250,000 - 70% Benthyciad mewn cymhariaeth â Gwerth<br><br>Gall y Cyngor ystyried mewn rhai achosion ddefnyddio eiddo arall fel gwarant ar gyfer y benthyciad.<br><br>Rhaid i'r ymgeisydd wneud y gwaith trawsnewid/atgyweirio o fewn cyfnod penodol o amser.<br>• Rhaid marchnata bod yr eiddo/unedau ar werth o fewn cyfnod rhesymol ar ôl cwblhau'r gwaith (12 wythnos). Os yw'r eiddo/unedau ar gael i'w rhentu ac nid yw unrhyw un yn byw ynddynt o fewn y cyfnod hwn o amser, efallai y bydd yn rhaid ad-dalu'r benthyciad.<br>• Rhaid ad-dalu'r benthyciad naill ai ar y dyddiad a nodwyd yng nghytundeb y benthyciad neu cyn y dyddiad hwnnw.<br><br>Rhaid i'r eiddo barhau wedi'i yswirio'n llawn yn erbyn colled neu ddifrod i'r gwerth adfer llawn. |
| **Uchafswm** | <u>Eiddo gwerth y farchnad</u><br>Lleiafswm o £1,000 hyd at uchafswm o £25,000 yr uned.<br><br><u>Eiddo rhent Lwfans Tai Lleol</u><br>Lleiafswm o £1,000 hyd at uchafswm o £35,000 yr uned.<br>Bydd rhaid i'r landlord lunio cytundeb Hawliau Enwebu neu'r cynllun Prydles PRS. |
| **Taliadau/Ffioedd y Benthyciad** | Mae'r holl ffioedd yn ddarostyngedig i newid blynyddol yn unol â Pholisi Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor. Mae'r ffioedd yn gywir adeg cymeradwyo'r Polisi yn Ionawr 2022<br><br>Benthyciad hyd at £10,000 – ffi o £1035<br><br>Benthyciad £10,001 – £35,000 – ffi o £1555<br><br>Benthyciad dros £35,000 – ffi o £2278<br><br>Bydd y ffioedd i landlordiaid yn cael eu hepgor os yw'r eiddo'n cael ei gynnig i'w rhentu ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol am gyfnod cyfan y benthyciad, ac mae'r landlord yn rhentu'r eiddo i denantiaid sydd ar Gofrestr Tai Fforddiadwy'r Cyngor neu, fel arall, i denant a fyddai'n gymwys i fod ar y Gofrestr hon gan lunio Cytundeb Hawliau Enwebu. |

| | |
|---|---|
| | **Gwasanaeth Goruchwylio**<br><br>Gall yr Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaeth goruchwylio ar gyfer gwaith adeiladu i sicrhau cysondeb yn safonau'r saernïaeth a sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau mewn da bryd. Bydd hyn yn cynnwys mesur yr eiddo i lunio cynllun gwaith, gan gynnwys darluniau lle y bo angen, cael dyfynbrisiau am y gwaith, gan gynnwys offer arbenigol, a datrys unrhyw faterion wrth iddynt godi. Gall yr ymgeisydd ddewis y gwasanaeth hwn os yw'n dymuno gwneud hynny, am dâl o 10% neu mae rhwydd hynt i'r ymgeisydd ddewis ei gontractwyr ei hun i wneud y gwaith. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd yr awdurdod lleol yn atebol am ansawdd y saernïaeth nac yn dilyn i fyny ynghylch diffygion wedi i'r gwaith gael ei gwblhau.<br><br>Nid yw'r ffioedd adeiladu/cynllunio na ffioedd gwerthuso RICS (os ydynt yn ofynnol) wedi eu cynnwys a dylai'r ymgeisydd eu talu. |

| **CYMORTH ATEGOL GYDAG IECHYD A THAI** | |
|---|---|
| **Diben/prif ddeilliannau** | Mae'r cymorth hwn ar gael yn ôl disgresiwn i alluogi pobl i fyw'n annibynnol, lle nad yw'r cynnyrch grant a benthyciadau eraill yn cwmpasu'r costau oherwydd cyfyngiadau'r meini prawf.<br><br>Mae'r cymorth ariannol yn dibynnu ar argaeledd ffrydiau cyllid priodol fel y Gronfa Gofal Integredig.<br><br>Mae enghreifftiau o'r eitemau cymwys yn cynnwys;<br><br>- clirio eiddo mewn achosion lle mae llwyth o bethau wedi cael eu storio<br>- llety dros dro i hwyluso'r gwaith<br>- cysylltu gwasanaethau<br>- materion iechyd y cyhoedd eraill<br><br>Cynigir y cyllid hwn yn ôl disgresiwn y Rheolwr Tîm yn unig<br><br>**Sylwch:** Nid yw'r cyllid yn gymorth grant ond yn gymorth ariannol a ddarperir am y cyfnod y mae'r derbynnydd yn byw yn yr eiddo ac yn ad-daladwy pan gaiff yr eiddo ei werthu/ei drosglwyddo |
| **Meini Prawf Cymhwystra (ymgeisydd)** | Cleientiaid hyglwyf na allant gael mynediad at unrhyw ffynonellau eraill o gyllid. |

| | |
|---|---|
| **Meini Prawf Cymhwystra (gwaith)** | Gwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd/diogelwch y meddiannwr neu bersonau eraill sy'n agos at y diffyg a ddarganfuwyd, lle nad oes unrhyw gynnyrch grant neu fenthyciad arall yn gallu cynorthwyo.<br><br>Bydd swyddogion o'r awdurdod lleol yn ymweld â'r eiddo i bennu'r gwaith sy'n gymwys ac yn trafod pob achos gyda'r Rheolwr Tîm. |
| **Amodau** | Cyflwynir Pridiannau Tir Lleol neu Bridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir a bydd yn daladwy adeg gwerthu neu drosglwyddo'r eiddo, am ba bynnag rheswm, ar ba bynnag adeg. |
| **Uchafswm** | Yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. |

**ATODIAD C – GWEITHDREFN BENTHYCIADAU AWDURDOD LLEOL**

# Benthyciadau Awdurdod Lleol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Pwerau i ddyfarnu benthyciadau

Mae Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 yn caniatáu i Awdurdodau Lleol lunio polisïau cyllido i fynd i'r afael ag anghenion lleol penodol a blaenoriaethau strategol wrth wella amodau byw. Rhaid i bolisi fod yn ei le/wedi'i fabwysiadu cyn y gellir rhoi unrhyw gymorth.

Gellir darparu cymorth mewn unrhyw ffurf a gall fod yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i amodau, gan gynnwys amodau ynghylch ad-dalu'r cymorth neu ei werth (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), neu wneud cyfraniad tuag at y gwaith â chymorth (fel y nodir mewn polisi lleol).

Yn ogystal, creodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 bŵer yn ôl disgresiwn y cyfeirir ato fel 'y pŵer llesiant' sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i wneud unrhyw beth y maent yn ei ystyried sy'n debygol o hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal a/neu'r bobl ynddi, ar yr amod nad ydynt yn cael eu cyfyngu rhag gwneud hynny gan ddeddfwriaeth arall.

O ganlyniad, mae natur eang Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 a'r pwerau 'llesiant' cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, yn golygu y bydd Awdurdodau Lleol yn gallu darparu cymorth ariannol trwy'r Cynlluniau Benthyciadau i'r ystod lawn o ymgeiswyr, a gallant atodi unrhyw amodau neu delerau y maent yn eu hystyried yn briodol o dan yr amgylchiadau.

*Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys cymhwystra ar gael yn y Polisi Cymorth Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai fel y cytunwyd gan y Cabinet ar 8 Mai 2018.*

## Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)

Mae'r FCA yn rheoleiddio darparu morgeisi ac ymddygiad partïon sy'n ymwneud â gweithgaredd morgais rheoledig. Mae Awdurdodau Lleol wedi'u heithrio rhag yr angen i gael caniatâd FCA ar gyfer y rhan fwyaf o weithgareddau credyd defnyddwyr, ond efallai y bydd angen caniatâd arnynt o hyd ar gyfer rhai mathau o fenthyca.

Mae gwarantu 'morgais tir' dros yr eiddo, naill ai trwy bridiant cyfreithiol sydd wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir Ddosbarthol neu bridiant tir lleol (h.y. morgais rheoledig) yn rhoi rheoleiddio'r gwasanaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnad 2000.

Fodd bynnag, o dan Orchymyn Deddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnad 2000 (eithriad) (Diwygio) (Rhif 2) 2003 mae Awdurdodau Tai Lleol sy'n cynnig morgeisi wedi'u heithrio o drefn reoleiddio'r FCA ar y sail bod gwasanaeth o ansawdd tebyg yn cael ei ddarparu i'r cleient.

Er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Tai Lleol yn gallu bodloni'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth cymharol, dylai'r Awdurdod Lleol geisio dilyn Cylchlythyr 20/02 (Canllawiau Adnewyddu) Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Canllawiau Gwerthu Morgeisi ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai 2000.

**Gwerthu o bell**
Pan fydd ALI yn darparu benthyciad/morgais heb unrhyw gyswllt wyneb yn wyneb â'r cwsmer ar unrhyw adeg, mae hyn yn cael ei ystyried yn 'werthu o bell' ac mae gwybodaeth a rheoliadau pellach yn berthnasol *fel y nodir yn y Gyfarwyddeb Marchnata o Bell ac a ymgorfforir yn neddfwriaeth y DU trwy Reoliadau Gwasanaethau Ariannol (Marchnata o Bell) 2004.*

Er mwyn sicrhau nad yw hyn yn berthnasol, rhaid i'r ALI gael cyfarfod wyneb yn wyneb â'r cwsmer i drafod y benthyciad/morgais.

**Safonau Gweinyddu Morgeisi**

1. Rhaid cynnal busnes benthyca mewn ffordd onest a chyfrifol, gyda gofal a sgil dyladwy.
    a. Dylai fod gan ALlau bolisi ar waith sy'n nodi meini prawf cymhwystra a chynhyrchu dogfen sy'n dangos hyn yn glir ar gyfer cwsmeriaid.
    b. Rhaid i aelod o staff hyfforddedig ymgymryd â'r weithdrefn fenthyca.
    c. Rhaid i ddulliau cyfweld beidio â gadael cwsmeriaid yn teimlo dan bwysau i gymryd morgais i ariannu gwaith gwella cartrefi.
    d. Rhaid i weithdrefnau benthyca beidio ag arwain at unrhyw driniaeth annheg i gwsmeriaid.
    e. Rhaid i weithdrefnau benthyca beidio ag arwain at unrhyw wrthdaro dyletswydd â chwsmeriaid.
    f. Cyn rhoi unrhyw gymorth rhaid i'r ALI fodloni ei hun fod yr unigolyn wedi derbyn cyngor neu wybodaeth briodol am faint a natur unrhyw rwymedigaeth (ariannol neu fel arall) y bydd yn ei chymryd arno.

2. Rhaid i weithdrefnau benthyca gydnabod buddiannau'r cwsmer a'i drin yn deg.
    a. Dylid rhoi gwybodaeth glir am delerau'r benthyciad ymlaen llaw.
    b. Dylid rhoi amser i gwsmeriaid ystyried a yw'r cynnyrch hwn yn iawn iddyn nhw, cyn llofnodi dogfennau.
    c. Rhaid i'r ALI fodloni ei hun fod cwsmeriaid yn hollol ymwybodol o unrhyw ymrwymiad ariannol y maent yn ymrwymo iddo

3. Rhaid i bob cyswllt a chyfathrebu â chwsmeriaid fod yn glir, yn deg a heb fod yn gamarweiniol.
    a. Mae'r cyswllt yn cynnwys cyswllt llafar ac ysgrifenedig, galwadau ffôn, cyswllt wyneb yn wyneb a gohebiaeth (llythyrau, e-byst).
    b. Dylai'r cwsmer gael gwybodaeth ysgrifenedig am y cynnyrch sy'n cael ei gynnig (dogfen ganllaw). Dylai hyn gynnwys; pwy sy'n darparu'r benthyciad/morgais; ffioedd; polisi ad-daliadau; gweithdrefn gwyno (gwybodaeth ragnodedig).
    c. Dylid rhoi dogfen ganllaw yn gynnar/cyswllt cyntaf.
    d. Yn cynnwys argaeledd y benthyciad neu gynhyrchion eraill sydd ar gael trwy'r rhoddwr benthyg a allai fod yn addas.
    e. Wrth gynnig benthyciad/morgais, dylid rhoi Dogfen Cynnig Morgais i'r cwsmer. Dylai hyn gynnwys; enw'r cwsmer; y dyddiad y cafodd ei gynhyrchu a pha mor hir y mae'r cynnig yn ddilys; sut i'w dderbyn; pa gymorth a roddwyd; ffioedd sy'n berthnasol; swm y morgais; ad-daliadau; gwerth eiddo er diogelwch; cyfradd llog; telerau/risgiau gwaredu; hyd y morgais; cyfanswm cost y morgais; manylion cyswllt (gwybodaeth ragnodedig)

4. Rhaid cymryd gofal rhesymol i sicrhau bod unrhyw forgais a gynigir i'r cwsmer yn addas ar eu cyfer, yn seiliedig ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau.
    a. Rhaid i'r ALl gymryd camau rhesymol i gael gan gwsmeriaid yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol i asesu a yw'r benthyciad yn addas, e.e. capasiti perchnogaeth (personol/busnes ac ati), dyled arall wedi'i gwarantu, sefyllfa ariannol yr ymgeisydd ac ati.
        i. Gall cwsmer fforddio cymryd y benthyciad/morgais, ystyried incwm/gwariant a newidiadau tebygol yn y dyfodol
        ii. Mae benthyciad/morgais yn ateb anghenion ac amgylchiadau cwsmeriaid
        iii. Mae'r cwsmer yn bodloni'r gofynion cymhwystra
        iv. Ar gyfer Benthyciad Oes, anghenion a chynlluniau cwsmeriaid yn y dyfodol e.e. symud, neu ei ddymuniadau ar gyfer yr ystâd.

*Cyfeiriwch at Gylchlythyr 20/02 (Canllawiau Adnewyddu) Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Canllawiau Gwerthu Morgeisi ar gyfer Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai 2000 i gael mwy o wybodaeth.*

**Cymorth Gwladwriaethol**

Dim ond ar gyfer benthyciadau landlordiaid y dylid ystyried Cymorth Gwladwriaethol. Y trothwyon de minimis presennol yw tua £163,500 dros gyfnod o dair blynedd. Nid y gydran cymorth yw'r benthyciad ei hun (y mae'n rhaid ei ad-dalu) ond y fantais a roddir i'r benthyciwr trwy beidio â gorfod talu llog ar y benthyciad. O ganlyniad, byddai swm y cymorth ar gyfer pob trafodiad yn cael ei gyfrif fel gwerth presennol y llog y byddai rhoddwr benthyg masnachol yn ei godi. Ar yr amod nad yw'r ffigur hwnnw, ynghyd â swm unrhyw gymorth gwladwriaethol arall a dderbynnir gan y benthyciwr yn y tair blynedd cyn i'r cymorth gael ei roi, yn fwy na £163,500 o bob ffynhonnell cymorth sector cyhoeddus, gall y rheolau de minimis fod yn berthnasol. Mae budd benthyciad o'r fath o dan y cynlluniau hyn ymhell islaw'r trothwy presennol.

Dylid rhoi datganiad o oblygiadau cymorth gwladwriaethol i ymgeiswyr sy'n landlordiaid/datblygwyr.

**Cynhyrchion Benthyciad Presennol**

Gellir addasu'r weithdrefn hon i gynnwys ffynonellau benthyciadau newydd pe bai'r Awdurdod Lleol mewn sefyllfa i'w cynnig.
Mae'r cynhyrchion presennol yn cynnwys:

- Cymorth Atgyweiriadau Brys
- Benthyciad Gwella Cartrefi
- Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi
- Benthyciad Oes

## Camau yn y broses

| | Cymorth Atgyweiriadau Brys | Benthyciad Oes | Benthyciad Gwella Cartrefi | Benthyciad Troi Tai'n Gartrefi | Benthyciad Canol Trefi (ddim ar gael |
|---|---|---|---|---|---|
| **Derbyn ymholiad.** | | | | | |
| Anfon llythyr neu ebost cychwynnol gan gynnwys amodau/gwybodaeth. (Dogfen ganllaw) | X | | X | X | |
| Ymweld ag eiddo i benderfynu ar y gwaith a sgwrsio am y benthyciad wyneb yn wyneb. Dylid trafod gyda'r ymgeisydd i gadarnhau pryd y gellir ad-dalu'r cyllid. Esbonio'r broses o wneud cais a sicrhau'r taliad. Cadarnhau perchnogaeth. | X | X | X | X | |
| Cynnal System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) yn yr annedd i nodi peryglon Categori 1 | X | X | | | |
| Rhestr o'r gwaith i roi sylw i'r peryglon Categori 1 mewn annedd. Cael dyfynbrisiau gan ddefnyddio Fframwaith Mân Waith Cynghorau. | X | X | | | |
| Llenwi'r ffurflen gais gyda'r ymgeisydd | X | X | | | |
| **Derbyn cais** | | | | | |
| Gwirio bod y gwaith arfaethedig yn cyfateb â'r dibenion | X | X | X | X | |
| Gwirio cais[1] (swyddog cyntaf) (cyfeirio at gamau asesu ariannol) | | X | X | X | |
| Gwirio cais[8] (ail swyddog) (cyfeirio at gamau asesu ariannol) | X | X | X | X | |
| Dylid cadarnhau statws perchnogaeth gyda Theitl y Gofrestrfa Tir a rhoi ystyriaeth i unrhyw bridiannau eraill (morgeisi) a warentir ar yr annedd. | X | X | X | X | |
| Ceisiadau cwmni i'w cyfeirio at Gyllid i'w hasesu. | | | X | X | |
| Gwirio bod yswiriant eiddo yn ei le | | | X | X | |
| Cymeradwyo'r Benthyciad. | X[9] | X[2] | X | X | |
| Llunio Dogfen Pridiant Cyfreithiol | | X | X | X | |
| Llunio Dogfen cytundeb benthyciad | | | X | X | |
| Dogfennau[10] i'w hanfon at yr ymgeisydd, gyda llythyr eglurhaol. Annog yr ymgeisydd i geisio cyngor annibynnol. Bydd angen i drydydd parti fod yn dyst i lofnodi dogfennau. | | X | X | X | |
| Cael cytundeb wedi'i lofnodi gan Reolwyr Corfforaethol Tai a Chyllid | | X | X | X | |

---

[8] Gwirio perchnogaeth, costau gwaith, asesiad ariannol, ffurflenni adnabod, hyfywedd/diwydrwydd dyladwy, opsiynau diogelwch, dyledion gyda CSC, y ffi a dderbyniwyd. Gweler y camau asesu ariannol am wybodaeth bellach.

[9] Dogfen gymeradwyo i gynnwys amodau a chyfeiriad at y gymeradwyaeth yn ddarostyngedig i bridiannau'n cael eu gwarantu.

[10] Dogfen Cynnig Morgais, Cytundeb Benthyciad, Pridiant Cyfreithiol, Debyd Uniongyrchol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dogfennau a ddychwelwyd[11] i'w hanfon at yr Adran Gyfreithiol i'w llofnodi/selio ar ran y Cyngor a chofrestru pridiannau. Pan fydd hwn yn ei le, dychwelyd un copi i'r ymgeisydd i'w gadw'n ddiogel. | | X | X | X | |
| Cyfarwyddo contractwr a gwirio gwaith ar ôl ei gwblhau cyn talu. | X | X | X[12] | | |
| Cofrestru costau gyda Phridiannau Tir Lleol | X | X[13] | | | |
| Taliad i'w anfon at Gyllid. Copïau o ddogfennau i'w cadw mewn ffolder a rennir. Bydd Cyllid yn monitro ad-daliadau ac ati. | X | X | X | X | |

**SYLWCH: Dylai benthyciadau dros £100,000 fod yn ddarostyngedig i brotocol asesu'r Panel, gafn gynnwys mewnbwn gan Reolwyr Corfforaethol Tai a Chyllid a swyddogion asesu yn y ddau wasanaeth.**

**Camau asesu ariannol**

Er mwyn lleihau'r risg a chynnal diwydrwydd dyladwy wrth asesu ceisiadau am gyllid benthyciad, mae dull fesul cam at asesiad ariannol yn cael ei ddilyn yn unol â'r isod.

| **Cais perchen-feddianwyr – Cyfanswm benthyciad hyd at £25,000 Benthyciad Gwella Cartrefi** | |
|---|---|
| Ffurflen fforddiadwyedd | Gwirio yn erbyn cyfriflenni banc a slipiau cyflog a ddarperir i sicrhau y gellir talu'r taliadau benthyciad ychwanegol yn gyffyrddus. (Benthyca cyfrifol)<br><br>Os na, ystyried newid swm y benthyciad, yr amserlen ad-dalu neu ariannu amgen. |
| Benthyciad mewn cymhariaeth â Gwerth | Uchafswm o 80% (gan ddefnyddio gwerth presennol a chyfrif am forgais/benthyciad gwarantedig arall) |
| Diogelwch | Y taliad cyntaf neu'r ail daliad ar eiddo sy'n cael ei adnewyddu |
| Yswiriant | Gwirio bod yswiriant tŷ yn ei le, yn erbyn colled neu ddifrod, i werth adfer llawn |
| Gwiriad dyled | Cynnal gwiriad dyled gyda dyledwyr a threth y cyngor mewn perthynas ag ymgeisydd ac eiddo. Rhaid talu dyledion cyn cymeradwyo. |
| Talu arian | Ar anfoneb, ar ôl cwblhau'r gwaith, fesul cam os oes angen |
| Ad-daliad | Yn fisol o leiaf £50/mis dros 10 mlynedd ar y mwyaf |

[11] Pridiant Cyfreithiol, Cytundeb Benthyciad, Teitl Cofrestrfa Tir, ffurflen ID1, Cytundeb cwmni morgeisi/gweithred blaenoriaeth, dogfen cytundeb Rheolwr. Gwasanaethau cyfreithiol i gofrestru pridiant Cofrestrfa Tir a Thŷ'r Cwmnïau, os yn berthnasol.
[12] Dylid cyfarwyddo contractwr ar gyfer Benthyciad Gwella Cartrefi dim ond os yw'r Gwasanaeth Goruchwylio yn cael ei ddefnyddio.
[13] Lle mae'r costau o dan £5000

| **Landlord Unigol – Cyfanswm benthyciad hyd at £25,000<br>Gwella Cartrefi, Troi Tai'n Gartrefi** | |
|---|---|
| Ffurflen fforddiadwyedd | Benthyciad Gwella Cartrefi<br><br>Gwirio yn erbyn cyfriflenni banc a slipiau cyflog a ddarperir i sicrhau y gellir talu'r taliadau benthyciad ychwanegol yn gyffyrddus. (Benthyca cyfrifol)<br><br>Os na, ystyried newid swm y benthyciad, yr amserlen ad-dalu neu ariannu amgen.<br><br>Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br>Gwiriad ecwiti<br><br>Y gallu i gyflawni'r cynllun |
| Benthyciad mewn cymhariaeth â Gwerth | Uchafswm o 80% (gan ddefnyddio gwerth presennol a chyfrif am forgais/benthyciad gwarantedig arall) |
| Diogelwch | Pridiant cyntaf neu'r ail bridiant ar eiddo sy'n cael ei adnewyddu neu eiddo arall lle mae'r berchnogaeth yr un peth. |
| Yswiriant | Gwirio bod yswiriant eiddo yn ei le, yn erbyn colled neu ddifrod, i'r gwerth adfer llawn |
| Gwiriad dyled | Cynnal gwiriad dyled gyda dyledwyr a threth y cyngor mewn perthynas ag ymgeisydd ac eiddo. Rhaid talu dyledion cyn cymeradwyo. |
| Talu arian | Benthyciad Gwella Cartrefi<br><br>Ar anfoneb, ar ôl cwblhau'r' gwaith, fesul cam os oes angen<br><br>Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Ymlaen llaw ar ôl sicrhau benthyciad |
| Ad-daliad | Benthyciad Gwella Cartrefi<br><br>Yn fisol o leiaf £100/mis dros 5 mlynedd ar y mwyaf<br><br>Benthyciad Eiddo Gwag Tro Tai'n Gartrefi<br><br>Cyfandaliad ar ddiwedd y tymor (2 flynedd gwerthu, 5 mlynedd rhentu)<br><br>Neu ar ôl gwerthu os yw'n gynharach |

| **Unigolyn/Landlord – Swm benthyciad £25,001 – £100,000**<br>**Troi Tai'n Gartrefi** | |
|---|---|
| Fforddiadwyedd | Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Gwiriad ecwiti<br><br>Y gallu i gwblhau'r cynllun |
| Benthyciad mewn cymhariaeth â Gwerth | Uchafswm o 75% (gan ddefnyddio gwerth presennol a chyfrif am forgais/benthyciad gwarantedig arall) |
| Diogelwch | Pridiant cyntaf neu'r ail bridiant ar eiddo sy'n cael ei adnewyddu neu eiddo arall lle mae'r berchnogaeth yr un peth. |
| Yswiriant | Gwirio bod yswiriant eiddo yn ei le, yn erbyn colled neu ddifrod, i'r gwerth adfer llawn |
| Gwiriad dyled | Cynnal gwiriad dyled gyda dyledwyr a threth y cyngor mewn perthynas ag ymgeisydd ac eiddo. Rhaid talu dyledion cyn eu cymeradwyo. |
| Talu arian | Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Ymlaen llaw ar ôl sicrhau benthyciad, ond ei ryddhau fesul cam/cyfran ynghyd â chynnydd |
| Ad-daliad | Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Cyfandaliad ar ddiwedd y tymor (2 flynedd gwerthu, 5 mlynedd rhentu)<br>Neu ar ôl gwerthu os yw'n gynharach |

| **Unigolyn/Landlord – Swm benthyciad £100,001 – £250,000**<br>**Troi Tai'n Gartrefi**<br>**Y SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet** | |
|---|---|
| Fforddiadwyedd | Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Gwiriad ecwiti<br><br>Y gallu i gwblhau'r cynllun |
| Benthyciad mewn cymhariaeth â Gwerth | Uchafswm o 70% (gan ddefnyddio gwerth presennol a chyfrif am forgais/benthyciad gwarantedig arall) |
| Diogelwch | Pridiant cyntaf neu'r ail bridiant ar eiddo sy'n cael ei adnewyddu neu eiddo arall lle mae'r berchnogaeth yr un peth. |
| Yswiriant | Gwirio bod yswiriant eiddo yn ei le, yn erbyn colled neu ddifrod, i'r gwerth adfer llawn |
| Gwiriad dyled | Cynnal gwiriad dyled gyda dyledwyr a threth y cyngor mewn perthynas ag ymgeisydd ac eiddo. Rhaid talu dyledion cyn eu cymeradwyo. |
| Talu arian | Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi |

| | |
|---|---|
| | Ymlaen llaw ar ôl sicrhau benthyciad, ond ei ryddhau fesul cam/cyfran ynghyd â chynnydd |
| Ad-daliad | Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Cyfandaliad ar ddiwedd y tymor (2 flynedd gwerthu, 5 mlynedd rhentu)<br>Neu ar ôl gwerthu os yw'n gynharach<br><br>Mae'r gallu i ofyn am ad-daliadau fesul cam yn angenrheidiol |

| **Cais Busnes/Cwmni – Cyfanswm benthyciad hyd at £25,000<br>Troi Tai'n Gartrefi** | |
|---|---|
| Cyfrifon | Cyllid i gynnal asesiad o'r busnes/cwmni i gynnwys adolygiad o'r ddau Ddatganiad o Gyfrifon blwyddyn lawn ddiweddaraf, i gynnwys cyfrif Elw a Cholled llawn a Mantolen. Bydd yr asesiad yn ceisio sicrhau bod y busnes yn gynaliadwy, bod ganddo'r gallu i ymgymryd â'r datblygiad arfaethedig, y gallu i wasanaethu'r benthyciad ac nid oes ganddo unrhyw faterion llif arian. Lle bo modd, bydd adroddiad Credyd Busnes Dun & Bradstreet hefyd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r Datganiad o Gyfrifon i werthuso cyflwr ariannol y busnes.<br><br>Pan fydd busnes yn gwmni cyfyngedig cofrestredig bydd gwybodaeth sydd ar gael gan Dŷ'r Cwmnïau ac unrhyw ffynhonnell gyhoeddus arall hefyd yn rhan o'r asesiad. |
| Benthyciad mewn cymhariaeth â Gwerth | Uchafswm o 80% (gan ddefnyddio gwerth presennol a chyfrif am forgais/benthyciad gwarantedig arall) |
| Diogelwch | Pridiant cyntaf neu'r ail bridiant ar eiddo sy'n cael ei adnewyddu neu eiddo arall lle mae'r berchnogaeth yr un peth. |
| Yswiriant | Gwirio bod yswiriant eiddo yn ei le, yn erbyn colled neu ddifrod, i'r gwerth adfer llawn |
| Gwiriad dyled | Cynnal gwiriad dyled gyda dyledwyr a threth y cyngor mewn perthynas ag ymgeisydd ac eiddo. Rhaid talu dyledion cyn eu cymeradwyo. |
| Tŷ'r Cwmnïau | Pridiant wedi'i gofrestru yn erbyn endid busnes gyda Thŷ'r Cwmnïau |
| Talu arian | Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Ymlaen llaw ar ôl sicrhau benthyciad |
| Ad-daliad | Cyfandaliad ar ddiwedd y tymor (2 flynedd gwerthu, 5 mlynedd rhentu) |

| | |
|---|---|
| | Neu ar ôl gwerthu os yw'n gynharach |
| **Cais Busnes/Cwmni – Swm benthyciad £25,001 – £100,000<br>Troi Tai'n Gartrefi** | |
| Cyfrifon | Cyllid i gynnal asesiad o'r busnes/cwmni i gynnwys adolygiad o'r ddau Ddatganiad o Gyfrifon blwyddyn lawn ddiweddaraf, i gynnwys cyfrif Elw a Cholled llawn a Mantolen. Bydd yr asesiad yn ceisio sicrhau bod y busnes yn gynaliadwy, bod ganddo'r gallu i ymgymryd â'r datblygiad arfaethedig, y gallu i wasanaethu'r benthyciad ac nid oes ganddo unrhyw faterion llif arian. Lle bo modd, bydd adroddiad Credyd Busnes Dun & Bradstreet hefyd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r Datganiad o Gyfrifon i werthuso iechyd ariannol y busnes.<br><br>Pan fydd busnes yn gwmni cyfyngedig cofrestredig bydd gwybodaeth sydd ar gael gan Dŷ'r Cwmnïau ac unrhyw ffynhonnell gyhoeddus arall hefyd yn rhan o'r asesiad. |
| Benthyciad mewn cymhariaeth â Gwerth | Uchafswm o 75% (gan ddefnyddio gwerth cyfredol a chyfrif am forgais/benthyciad gwarantedig arall) |
| Diogelwch | Pridiant cyntaf neu'r ail bridiant ar eiddo sy'n cael ei adnewyddu neu eiddo arall lle mae'r berchnogaeth yr un peth. |
| Yswiriant | Gwirio bod yswiriant eiddo yn ei le, yn erbyn colled neu ddifrod, i'r gwerth adfer llawn |
| Gwiriad dyled | Cynnal gwiriad dyled gyda dyledwyr a threth y cyngor mewn perthynas ag ymgeisydd ac eiddo. Rhaid talu dyledion cyn eu cymeradwyo. |
| Tŷ'r Cwmnïau | Pridiant wedi'i gofrestru yn erbyn endid busnes gyda Thŷ'r Cwmnïau |
| Talu arian | Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Ymlaen llaw ar ôl sicrhau benthyciad<br><br>Taliadau fesul cam wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen |
| Ad-daliad | Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Cyfandaliad ar ddiwedd y tymor (2 flynedd gwerthu, 5 mlynedd rhentu)<br>Neu ar ôl gwerthu os yw'n gynharach |

| **Cais Busnes/Cwmni – Swm benthyciad £100,001 – £250,000**<br>**Troi Tai'n Gartrefi**<br>**Y SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet** | |
|---|---|
| Cyfrifon | Cyllid i gynnal asesiad o'r busnes/cwmni i gynnwys adolygiad o'r ddau Ddatganiad o Gyfrifon blwyddyn lawn ddiweddaraf, i gynnwys cyfrif Elw a Cholled llawn a Mantolen. Bydd yr asesiad yn ceisio sicrhau bod y busnes yn gynaliadwy, bod ganddo'r gallu i ymgymryd â'r datblygiad arfaethedig, y gallu i wasanaethu'r benthyciad ac nid oes ganddo unrhyw faterion llif arian. Lle bo modd, bydd adroddiad Credyd Busnes Dun & Bradstreet hefyd yn cael ei ddefnyddio ar y cyd â'r Datganiad o Gyfrifon i werthuso cyflwr ariannol y busnes.<br><br>Pan fydd busnes yn gwmni cyfyngedig cofrestredig bydd gwybodaeth sydd ar gael gan Dŷ'r Cwmnïau ac unrhyw ffynhonnell gyhoeddus arall hefyd yn rhan o'r asesiad. |
| Benthyciad mewn cymhariaeth â Gwerth | Uchafswm o 70% (gan ddefnyddio gwerth cyfredol a chyfrif am forgais/benthyciad gwarantedig arall) |
| Diogelwch | Pridiant cyntaf neu'r ail bridiant ar eiddo sy'n cael ei adnewyddu neu eiddo arall lle mae'r berchnogaeth yr un peth. |
| Yswiriant | Gwirio bod yswiriant eiddo yn ei le, yn erbyn colled neu ddifrod, i'r gwerth adfer llawn |
| Gwiriad dyled | Cynnal gwiriad dyled gyda dyledwyr a threth y cyngor mewn perthynas ag ymgeisydd ac eiddo. Rhaid talu dyledion cyn eu cymeradwyo. |
| Tŷ'r Cwmnïau | Pridiant wedi'i gofrestru yn erbyn endid busnes gyda Thŷ'r Cwmnïau |
| Talu arian | Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Ymlaen llaw ar ôl sicrhau benthyciad<br><br>Taliadau fesul cam wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen |
| Ad-daliad | Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Benthyciad Eiddo Gwag Troi Tai'n Gartrefi<br><br>Cyfandaliad ar ddiwedd y tymor (2 flynedd gwerthu, 5 mlynedd rhentu)<br>Neu ar ôl gwerthu os yw'n gynharach<br>Mae'r gallu i ofyn am ad-daliadau fesul cam yn angenrheidiol |

Er mwyn lliniaru'r risg yn erbyn peidio ag ad-dalu/diffygdalu ymhellach, mae byffer i'w gynnal o £100,000 ar draws cronfeydd benthyciadau, o'r cyllid grant gwreiddiol.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Eitem Agenda 4

**Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd o bell, drwy fideo-gynadledda, ddydd Iau, 16 Rhagfyr 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Bryan Davies, Gethin Davies, Marc Davies, Odwyn Davies, Elaine Evans, Keith Evans, Alun Lloyd-Jones, Hag Harries, Lyndon Lloyd MBE, Daniel Potter, John Roberts, Mark Strong, Lynford Thomas ac Ivor Williams.

**Aelodau'r Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorwyr Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Gareth Lloyd ac Alun Williams

Swyddogion yn bresennol: Anne-Louise Davies, Alwen Edwards, Llŷr Hughes, Elizabeth Upcott, Donna Pritchard, Alun Williams

10am – 12.15pm

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Paul Hinge a Catherine Hughes am nad oedd modd iddynt ddod i'r cyfarfod.

**2 Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu (gan gynnwys datganiadau chwipio)**

Roedd y Cynghorydd Alun Williams wedi datgelu buddiant personol o dan eitem 7.

**3 Polisi Grantiau a Benthyciadau**

Tynnwyd eitem 3 o'r agenda. Cyflwynir yr adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**4 Adolygu Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor - Bysus a dynnir gan geffylau**

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd Gareth Lloyd a'r Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu. Roedd unigolyn wedi cysylltu â'r Awdurdod yn mynegi diddordeb mewn defnyddio cart a cheffyl i fynd â theithwyr ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth.

Nid yw'r Polisi Cyfredol ar Gerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn cynnwys cart a cheffyl/ omnibws ac ar hyn o bryd nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion unrhyw is-ddeddfau mewn lle ar gyfer rheoleiddio omnibysus.

Ni all cart a cheffyl sy'n darparu cludiant cyhoeddus gael ei drwyddedu fel cerbyd hurio preifat am fod yr elfen yma'n gaeth i gerbydau modur yn unig. Gall cart a cheffyl gael ei drwyddedu i'w ddefnyddio fel 'omnibws' o dan Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1889. Fodd bynnag er mwyn trwyddedu a defnyddio omnibysus o'r fath byddai'n ofynnol i'r Awdurdod yn gyntaf:
1) Diwygio ei Bolisi Cyffredinol er mwyn cyflwyno amodau trwyddedu newydd a phenodol ar gyfer y math yma o gludiant, a
2) Mabwysiadu is-ddeddf newydd i reoleiddio ceirt a cheffylau / omnibysus.

Bu i’r Gwasanaeth dderbyn cyfanswm o 216 ymateb i’r ymgynghoriad yma. Ceir dadansoddiad cryno o’r ymatebion ynghlwm yn Atodiad B y papurau.

Gofynnwyd i’r Pwyllgor ystyried cynnwys yr adroddiad yma a’r ymatebion i’r ymgynghoriad ac argymell i’r Cabinet naill ai:

1. nad yw’r newid i’r polisi arfaethedig yn angenrheidiol ac y dylai’r Awdurdod ystyried parhau fel sir “heb omnibysus”,
   neu
2. bod newid arfaethedig i’r polisi yn angenrheidiol er mwyn caniatáu omnibysus yn Aberystwyth a/neu unrhyw ardal arall o’r sir lle byddai angen gwneud y canlynol:
   a) mabwysiadu’r amodau trwyddedu newydd, a
   b) mabwysiadu is-ddeddf newydd ar gyfer y trywydd penodol newydd a/neu unrhyw drywydd omnibws arfaethedig yn y dyfodol er mwyn gweithredu’n effeithiol unrhyw gamau sy’n groes i amodau’r drwydded.

Codwyd cwestiynau gan yr aelodau gan gynnwys y trefniadau ar gyfer y man troi a ddefnyddir gan y ceffyl a'r cart i droi yn yr harbwr, a ble fydd y cerbyd cludo ar gyfer y ceffyl a'r cart yn cael ei barcio. Pwysleisiwyd y dylai lles anifeiliaid fod yn flaenoriaeth ac y dylid codi'r arwyddion cywir.

Cydnabu'r Pwyllgor yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Yn dilyn rhagor o drafod CYTUNODD y Pwyllgor i argymell fod newid arfaethedig i’r polisi yn angenrheidiol er mwyn caniatáu omnibysus yn Aberystwyth a/neu unrhyw ardal arall o’r sir lle byddai angen gwneud y canlynol:
a) mabwysiadu’r amodau trwyddedu newydd, a
b) mabwysiadu is-ddeddf newydd ar gyfer y trywydd penodol newydd a/neu unrhyw drywydd omnibws arfaethedig yn y dyfodol er mwyn gweithredu’n effeithiol unrhyw gamau sy’n groes i amodau’r drwydded.

**5 Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, Chwarter 1 2021-2022**

Bu i’r Cynghorydd Alun Williams a’r Rheolwr Tîm Diogelu Oedolion gyflwyno i’r Pwyllgor Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol, Chwarter 1 2021-2022. Caiff adroddiadau chwarterol eu rhoi gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach fel rhan o'r ystyriaeth barhaus o'r pwnc i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau fel y Rhiant Corfforaethol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac mae'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ystyriodd y Pwyllgor bwyntiau allweddol yr adroddiad.

Holodd yr Aelodau ynghylch nifer yr atgyfeiriadau diogelu yn dilyn diwedd y cyfnod clo; sut yr ymdrinnir â phryderon am gamdriniaeth a riportir i'r gwasanaeth a beth yw'r gweithdrefnau sydd ar waith.

Nodwyd y daw argymhellion yn dilyn yr ymchwiliadau i'r ddau ddigwyddiad diweddar yn y Deyrnas Unedig, a bydd angen i bob awdurdod ystyried y rhain ac adolygu eu gweithdrefnau.

Cynigiwyd bod swyddogion yn trafod gyda'r gwasanaeth addysg er mwyn i nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn yr ysgolion fod yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd cyrff llywodraethu'r ysgolion.

Esboniodd y swyddogion fod gan bob person ifanc gynorthwyydd personol sy'n gweithio'n agos gyda nhw o ran tai, hyfforddiant, addysg ac ati i gefnogi'r pontio i fod yn oedolyn. Mae'r ddarpariaeth hon ar waith tan eu bod yn bump ar hugain oed.

Gofynnodd aelod am sicrwydd fod gan y gwasanaeth ddigon o adnoddau. Ar hyn o bryd mae yna swyddi gwag ac mae'r gwasanaeth yn ceisio recriwtio iddynt, ond mae hon yn broblem ranbarthol a chenedlaethol. Mae ymgyrchoedd recriwtio wrthi'n digwydd.

Cytunodd y Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a gweithgarwch yr Awdurdod Lleol.

**6 Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-2020**

Bu i'r Cynghorydd Alun Williams a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Gofal gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-20. Nod yr Adroddiad Blynyddol yw creu darlun cyflawn o Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngheredigion gan hefyd ddarparu adborth amserol ar brosesau cynllunio a chyllido. Mae'r adroddiad ar gyfer blwyddyn 2019 - 2020 yn un hanesyddol yn sgil dechrau cyfnod Covid-19 ym mis Mawrth 2020. Bu i Lywodraeth Cymru ymestyn y cyfnod amser ar gyfer cwblhau'r adroddiad yn sgil yr angen i swyddogion ffocysu ar ddarparu gwasanaethau hanfodol yn ystod y Pandemig. Yn ogystal, nid oedd y gofynion gymaint ar Gynghorau i ddarparu gwybodaeth perfformiad ac adlewyrchir hyn yn yr adroddiad.

Ar ôl ymgymryd â swydd Cyfarwyddwr Statudol dros dro am Wasanaethau Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2019, cwblhawyd yr adroddiad gan D Pritchard y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Porth Gofal a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r adroddiad yn disgrifio sut y mae Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion wedi perfformio yn ystod y flwyddyn (2019 - 2020) yng nghyd-destun newidiadau mawr yn yr amgylchedd gwaith. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer 2020-2021 gan ystyried fod y Pandemig wedi parhau i fod yn ddylanwad mawr ar y modd y cafodd gwasanaethau eu darparu.

Nodwyd y bydd y swyddogion yn adolygu ffurf adroddiadau'r dyfodol.

Cytunodd y Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad.

**7 Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal - Adroddiad diweddariad Hydref 2021**

Rhoddwyd y diweddaraf i'r Pwyllgor am Gyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal. Cyfarfu Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru o bell dros Zoom ar 18 Hydref 2021 a rhoddwyd y cyfle i'r cyhoedd ymuno â'r cyfarfod 'byw' i arsylwi a gofyn cwestiynau / mynegi pryderon yn ystod y sesiwn 'Gwrando arnoch chi'. Prif bwyslais y Cyd-bwyllgor oedd trafod y gwaith parhaus a wneir ar flaenoriaethau a chynllun cyflawni 2021/22 a chynlluniau Adfer Blynyddol/ COVID-19 y sefydliad.

Cododd yr Aelodau bryder ynghylch anawsterau'r cyhoedd wrth geisio cael apwyntiad gyda meddyg.

Cytunodd y Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad.

**8 Blaenraglen Waith Ddrafft 2021-2022**

Rhoddwyd ystyriaeth i Flaenraglen Waith Ddrafft 2021-2022 fel y'i cyflwynwyd. CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad ar yr amod yr ychwanegir yr isod:

- Y diweddaraf am Hafan Deg
- Polisi Grantiau a Benthyciadau
- Y diweddaraf am y Canolfannau Llesiant
- Y Tîm Troseddwyr Ifanc

**9 Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2021 a 20 Hydref 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt**

Penderfynodd y Pwyllgor gadarnhau fod Cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2021 a 20 Hydref 2021 yn gywir.

Materion yn codi - Dim.

**10 Unrhyw fater arall**

Holodd aelod a oedd uned dementia yn cael ei datblygu yn Hafan Deg. Dywedodd y swyddogion fod yr awdurdod wedi llwyddo i gael cyllid ar gyfer cynllun peilot ar gyfer adain dementia gyda gardd. Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn mynd allan i dendr ar gyfer y prosiect. Os bydd y cynllun peilot yn llwyddiannus bydd yr awdurdod yn edrych ar sut y gellir cyflwyno hyn ar draws y Sir.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod yr awdurdod wedi llwyddo hefyd i gael cyllid Pwysau'r Gaeaf a ddefnyddir ym mhob un o gartrefi gofal y cyngor yn y sir.

Mae sgyrsiau yn mynd rhagddynt ynghylch y posibilrwydd o gael cartref gofal newydd yn y sir. Rhoddir diweddariad mewn cyfarfodydd yn y dyfodol os bydd datblygiadau pellach.

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar xxxx 2022**

**Cadeirydd:**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol